



**CYNNIG I AILDREFNU'R DDARPARIAETH O RAN
DOSBARTHADAU CYNNAL DYSGU O FEWN RHONDDA
CYNON TAF**

ADRODDIAD YMGYNGHORI

Ionawr 2019

Adroddiad ymgynghori

Cynnig i aildefnu'r ddarpariaeth o ran Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn Rhondda Cynon Taf

1. Pwrpas yr Adroddiad Ymgynghori

Caiff yr adroddiad yma ei lunio yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru, sef dogfen statudol. Ei bwrpas yw llywio canlyniad yr ymgynghoriad a gafodd ei gynnal yn ystod y cyfnod rhwng 19 Hydref 2018 a 21 Rhagfyr 2018 gyda'r holl randdeiliaid a'r partion â buddiant sydd wedi'u rhestru isod.

2. Â phwy ymgynghoron ni?

Cafodd copi o'n dogfen ymgynghori a oedd yn rhoi'r holl wybodaeth am ein cynnig, ei anfon i'r rhanddeiliaid canlynol. Cafodd y ddogfen ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor hefyd: www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx

- Cyrff Llywodraethu, rhieni, cynhalwyr a staff yr ysgolion canlynol: Ysgol Gynradd Heol y Celyn, Ysgol Gynradd Pen-rhys, Ysgol Gynradd Pen-y-waun, Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith, Ysgol Gynradd Caradog, Ysgol Gynradd Cwm-bach, Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy, Ysgol Gynradd yr Hafod, Ysgol Gynradd Parc y Darren, Ysgol Gynradd Llantrisant
- Cyrff Llywodraethu, rhieni, cynhalwyr a staff Ysgol Nant-gwyn, Ysgol Gymuned Glynrhedynog, Ysgol Gymunedol Aberdâr, Ysgol Gyfun Bryncelynnog, Ysgol Gymuned y Porth ac Ysgol Gyfun Treorci
- Cyrff Llywodraethu'r ysgolion cynradd ac uwchradd cyfagos
- Cyngor yr Ysgol
- Awdurdod yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys Gatholig
- Corff Llywodraethu Coleg y Cymoedd
- Corff Llywodraethu Prifysgol De Cymru
- Gweinidog Addysg a Sgiliau Cymru
- Aelodau Cynulliad holl etholaethau ac ardaloedd rhanbarthol sy'n gwasanaethu Rhondda Cynon Taf.
- Aelodau Seneddol etholaethau Cwm Rhondda, Pontypridd a Chwm Cynon
- Estyn
- Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf
- Undebau Llafur Athrawon a Staff Cymorth
- Gwasanaeth Addysg ar y Cyd, Consortiwm Canolbarth y De
- Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru
- Y Bartneriaeth Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cymdeithas Drafnidiaeth De Ddwyrain Cymru
- Y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf leol
- Comisiynydd y Gymraeg
- Awdurdodau Lleol Cyfagos

3. Ynglŷn â beth roedden ni wedi ymgynghori?

Roedd y cynigion a oedd yn rhan o'r ymgynghoriad yn cynnwys:

Cau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu allweddol o ganlyniad i'r ffaith fod dim cadarnhad y bydd disgyblion yn eu mynychu neu am fod y niferoedd yn cwmpo neu'r safle'n anaddas ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion corfforol neu feddygol. Cynigwyd i'r newidiadau yma gael eu rhoi ar waith o 31 Awst 2019 ymlaen yn y lleoliadau canlynol:

- 3 Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith, Ysgol Gynradd Pen-rhys ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn;
- 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Caradog ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn;
- 1 Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiad yn Ysgol Gynradd Pen-y-waun.

Adleoli darpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu allweddol er mwyn sicrhau darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol mewn adeiladau ysgol hygyrch ar un safle. Cynigiwyd adleoli'r dosbarthiadau canlynol o 1 Medi 2019 ymlaen:

- 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys ac Ysgol Gynradd Caradog i symud i Ysgol Gymuned y Maerdy ac Ysgol Gynradd Cwm-bach yn y drefn honno. Bydd hyn yn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2.
- Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 2 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cyfathrebu yn Ysgol Gynradd yr Hafod i gael ei adleoli er mwyn creu darpariaeth ar draws cyfnodau allweddol o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3/4 yn Ysgol Gymuned y Porth.

Ail-ddynodi darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu i sicrhau darpariaeth well er mwyn cwrdd â'r angen sydd wedi'i nodi. Cynigiwyd rhoi'r camau aildrefnu canlynol ar waith o 1 Medi 2019 ymlaen:

- Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Sylfaen ar gyfer Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gynradd Parc y Darren a Dosbarth Arsylwi ac Asesu - Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Llantrisant i ddod yn 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu Asesu ac Ymyriad y Blynnydoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol statudol sy'n dangos anghenion sylweddol.

Datblygu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu newydd yn y sector uwchradd. Rydyn ni'n cynnig sefydlu dau Ddosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer Cyfnodau Allweddol 3/4 ym mis Medi 2019:

- Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Treorci
- Dosbarth Cynnal Dysgu - Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddwyn yn Ysgol Nant Gwyn

4. Y Broses Ymgynghori

Cafodd copïau papur neu electronig o ddogfennau'r ymgynghoriad eu hanfon at yr holl randdeiliaid sydd wedi'u nodi yn Adran 2 drosodd. Mae'r holl adborth ysgrifenedig a gafodd ei dderbyn wedi'i nodi yn Atodiad 1a gyda chrynodeb yn Atodiad 1b. Cafodd cyfarfodd ymgynghori eu cynnal ar gyfer staff, rhieni a disgyblion yr ysgolion sy'n cael eu heffeithio. Mae manylion a dyddiadau'r cyfarfodydd wedi'u hatodi a'u cynnwys yn Atodiad 1c. Mae nodiadau crynodeb yr ystod o achlysuron ymgynghori wedi'u nodi yn Atodiad 1d. Mae'r nodiadau yma'n cofnodi'r cwestiynau a godwyd, y sylwadau a'r datganiadau a wnaed, gyda'r ymatebion yn cael eu darparu lle bo'n briodol.

5. Crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad

Mae'r tabl isod yn nodi nifer a math yr ymatebion a gafodd eu cyflwyno ar gyfer pob cynnig unigol o fewn y ddogfen ymgynghori:

Rydyn ni wedi derbyn ymateb da i'r broses ymgynghori benodol yma mewn perthynas â dau gynnig penodol. Mae hyn yn cynnwys 200 o holiaduron wedi'u cwblhau, 87 llythyr a 2 ddeiseb. Mae'r ddeiseb ddiwethaf yn cynnwys 186 llofnod gan breswylwyr pryderus Ysgol Gynradd Pen-rhys a 2271 llofnodydd o Ysgol Gynradd yr Hafod (roedd 1131 o'r llofnodion yn llofnodion ffurfiol a chafodd 1098 eu cyflwyno ar ffurf deiseb ar-lein). Roedden ni hefyd wedi derbyn hyn a hyn o e-byst. Roedd tua 100 o gynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol hefyd wedi mynychu cyfarfodydd gyda staff y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ac roedd tua 160 o rieni wedi mynychu'r nosweithiau agored a gafodd eu cynnal er mwyn darparu gwybodaeth bellach.

Cynnig	Nifer yr ymatebion				Anghytuno
	Holiadur	Llythyr	E-bost	Deiseb	
Heol Y Celyn Ysgol Gynradd	0	0	1	0	1
Pen-rhys Ysgol Gynradd	66	76	0	186 o lofnodwyr	328
Pen-y-waun Ysgol Gynradd	0	0	0	0	0

6. Crynodeb o'r Materion Allweddol a Gafodd eu Codi ac Ymateb yr Awdurdod Lleol

Pont-y-gwaith Ysgol Gynradd	0	0	0	0	0
Heol y Celyn Ysgol Gynradd	0	0	0	0	0
Caradog Ysgol Gynradd	2	0	0	0	2
Hafod Ysgol Gynradd	132	10	7	2271 (1173 llofnod ffurfiol, 1098 yn rhan o ddeiseb ar-lein)	2420
Parc y Darren Ysgol Gynradd	0	1	0	0	1
Ysgol Nant-gwyn	0	0	0	0	0
Ysgol Uwchradd Treorci Ysgol	0	0	0	0	0
Ymatebion cyffredinol i'r cynigion	0	0	3	0	0

Mae dadansoddiad manwl o'r ymatebion i'r ymgynghoriad wedi'u cynnwys yn Atodiad 1b. Mae'r themâu allweddol sydd wedi ymddangos o'r gwaith dadansoddi yma fel a ganlyn:

Mater a godwyd	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Pellter / Amser teithio ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael eu hadleoli	Mae pellterau ac amseroedd teithio o fewn Canllawiau Mesur Teithio gan Ddysgwyr Llywodraeth Cymru. Caiff trafndiaeth ei darparu yn unol â Pholisi Teithio Disgyblion y Cyngor a chaiff disgyblion le yn y lleoliad arbenigol agosaf a mwyaf priodol.
Effaith ar ddisgyblion	Mae gan y newid mewn darpariaeth rai goblygiadau ar gyfer y nifer cymharol fach o ddisgyblion sy'n mynychu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu presennol. Er mwyn lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ddisgyblion unigol, bydd gan rieni'r cyfle i drafod a ydyn nhw'n dymuno bod eu plentyn yn mynychu'r ddarpariaeth arbenigol agosaf neu barhau yn eu hysgolion prif ffrwd bresennol gyda phhecyn cymorth unigryw.
Caiff Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eu cynnal mewn lleoliad ysgol prif ffrwd llai sy'n cael eu hystyried fel ysgol sy'n cynnig darpariaeth well.	Mae gan yr Awdurdod Lleol nifer o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu llwyddiannus sydd wedi'u lleoli mewn ysgolion mawr lle mae darpariaeth o ansawdd uchel ar gael i ddisgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn yn cynnwys cyfleoedd cynhwysiant, addysgol a chymdeithasol ar gyfer grwpiau bach lle mae holl fanteision Dosbarth Cynnal Dysgu'r un mor amlwg, gwerthfawr ac effeithiol mewn amgylchoedd ysgolion mawr ac ysgolion bach. Dydy maint yr ysgol ddim wedi bod yn ffactor allweddol wrth benderfynu a yw darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistaidd/CDU yn llwyddiannus neu effeithiol. Does dim tystiolaeth sy'n awgrymu bod disgyblion y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n meddwl bod ysgolion mwy yn cael effaith negyddol ar gynnydd addysgol neu lesiant y disgyblion.
Symud disgyblion Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cyfredol i'r lleoliadau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu newydd.	Bydd hyn yn osgoi trosglwyddo disgyblion sydd ag anghenion sylweddol yn ddiangen, yn sicrhau dilyniant yn eu lleoliadau addysgol ac yn sicrhau bod nifer uwch o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol yn rhoi tegwch i ddisgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu fel eu bod nhw'n aros mewn un lleoliad nes iddyn nhw gael eu hadleoli i addysg uwchradd yn unol â'u cyfoedion yn y brif ffrwd. Bydd cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer unrhyw ddisgyblion sy'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y cynigion. Bydd y cynlluniau yma'n cael eu llunio ar y cyd â rhieni a staff ac yn cynnwys cymorth ychwanegol gan staff arbenigol y Gwasanaethau Cynhwysiant

	a Mynediad.
Adleoli staff a newidiadau i delerau ac amodau cyflogaeth	Cafodd cyfarwyddyd gan yr Adran Adnoddau Dynol a gwybodaeth ynghylch sut bydd y broses yn symud ei blaen gyda'r Undebau Llafur eu rhannu â staff. Pe bai'r cynnig yn cael ei dderbyn, bydd rhagor o drafodaethau yn cael eu cynnal gyda staff, cynrychiolwyr Adnoddau Dynol a chynrychiolwyr yr Undeb Llafur yn dilyn y cyfnod hysbysiad statudol. Roedd staff yn fodlon â'r trefniadau a gafodd eu cynnig.
Cynnwys disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) o fewn lleoliadau prif ffrwd.	Mae yna ddisgwyliad y bydd disgyblion pob Dosbarth Cynnal Dysgu yn derbyn cyfleoedd cynhwysiant prif ffrwd. Mae hyn yn rhan o brotocol monitro'r Awdurdod Lleol ar gyfer Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Caiff disgyblion sy'n mynychu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar hyn o bryd yn yr ysgolion prif ffrwd hynny lle mae'r cynigion adleoli'n berthnasol eu cynnwys mewn gweithgareddau'r ysgol, boed hynny'n weithgareddau cwricwlaidd neu allgyrsiol, gan gynnwys triapiau ysgol, cyngherddau a chyflwyniadau. Mae'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n rhan hanfodol o ethos yr ysgolion a chaiff teuluoedd a disgyblion eu trin yn gyfartal â'u cyfoedion prif ffrwd. Bydd adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn sicrhau bod nifer uwch o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu wedi'u lleoli o fewn amgylcheddau addysgol hygyrch ac o ansawdd uchod sydd wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn rhan o Raglen Foderneiddio Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif.
Meini Prawf ar gyfer Lleoliad Arbenigol	Dydy'r ymgynghoriad ddim yn cynnwys cynnig sy'n ymwneud â meini prawf ar gyfer lleoliad arbenigol.
Cau lleoliadau prif ffrwd	Mae'r ymgynghoriad yn ymwneud â darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a dydy'r ymgynghoriad ddim yn cynnwys cynigion i gau unrhyw un o'r lleoliadau prif ffrwd.
Rheswm dros newid	Sail hyn yw: Cynnal dadansoddiad data o anghenion disgyblion cyfredol ac anghenion disgyblion rhagamcanol i sicrhau ein bod ni'n mynd i'r afael â nifer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu sydd â lleoedd dros ben ac er mwyn adlinio darpariaeth yn unol ag anghenion sydd wedi'u nodi. Cyfle i wella nifer y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu arbenigol o fewn lleoliadau prif ffrwd i leihau trosglwyddo disgyblion rhwng lleoliadau arbenigol mewn ysgolion gwahanol yn ddiangen. Byddai hyn yn sicrhau tegwch ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol er mwyn aros mewn un lleoliad ysgol, fel sydd ar gael i'w cyfoedion prif ffrwd, yn gyffredinol. Sicrhau bod gan nifer uwch o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu a'u disgyblion fynediad i ddarpariaeth arbenigol o fewn lleoliadau ysgol sydd wedi elwa o fuddsoddiad sylweddol yn rhan o Raglen Foderneiddio Ysgolion yr 21 Ganrif.
Cytuno'n gyffredinol â'r	Roedd yr ymatebion yn nodi bod angen rhagor o ddarpariaeth Cyfnod

angen am ddarpariaeth Cyfnod Allweddol 3/4	Allweddol 3/4 o fewn RhCT.
Colli darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu o fewn lleoliad yr ysgol gyfredol a cholli staff addysgu	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi cymaint y mae'r lleoliadau ysgol yn gwerthfawrogi'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a'u disgyblion a chymaint y maen nhw wedi ychwanegu at ethos cynhwysol yr ysgolion. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn bwriadu gwella darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn yr Awdurdod Lleol, fel sydd wedi'i amlinellu yn yr adran reswm dros newid.</p> <p>Mae'n dda nodi'r sylwadau cadarnhaol ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth. Bydd yna gyfleoedd er mwyn i'r Awdurdod Lleol ddal gafael ar staff arbenigol y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu wrth weithredu'r gwaith alinio darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Bydd modd archwilio cyfleoedd adleoli ble fo angen.</p>
Trafodaethau ynglŷn â darpariaeth disgyblion unigolyn	Bydd y materion yma'n cael eu trafod â rhieni ar sail unigol (ble y bo'n addas). Caiff opsiynau clir eu hamlinellu yn nogfen yr ymgynghoriad a byddan nhw'n cael eu trafod ymhellach os gaiff y cynllun ei gymeradwyo i symud ymlaen at y cyfnod hysbysiad statudol. Mae modd i hyn gynnwys cymorth ychwanegol, mewn lleoliad prif ffrwd y mae rhieni'r disgybl wedi'i ddewis, neu fath arall o ddarpariaeth arbenigol sy'n addas ar gyfer anghenion unigol y disgybl pe nad yw'r rhieni'n dymuno i'w plentyn fynychu'r Dosbarth Cynnal Dysgu sydd wedi'i neilltuo.
Pryderon ynghylch ansawdd y ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu lle mae'r ddarpariaeth yn cael ei hystyried fel effeithiol ar hyn o bryd	Does gan yr Awdurdod Lleol ddim tystiolaeth i awgrymu na fydd modd i'r ysgolion prif ffrwd a fydd yn cynnal y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu a fydd yn cael eu hadleoli yn rhan o'r cynigion ddarparu cyfleoedd addysgol ac allgyrsiol cynhwysol ac o ansawdd uchel i ddisgyblion y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Ar hyn o bryd mae'r ysgolion yn cynnal Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn llwyddiannus a byddai'r adleoliadau sydd wedi'u cynnig dim ond yn gwella'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu. Mae gan yr ysgolion prif ffrwd sydd wedi'u cynnig carfanau arweinyddiaeth cadarn. Bydd eu cyflawniad nhw yn cael eu craffu a'u herio yn unol â gweithdrefnau sicrhau ansawdd sydd wedi'u sefydlu o fewn RhCT a Chonsortium Canolbarth y De ehangach. Mae gan y Gwasanaeth Cynhwysiant a Mynediad gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd sydd wedi'u sefydlu ar gyfer monitro a herio cyflawniad pob un o'i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu a byddai'r broses yma'n parhau i ddilyn y cynigion i adleoli'r darpariaethau.
Lleihau cyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol	Dydy'r cynigion ddim yn cynnwys lleihau cyllid ar gyfer darpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu ar draws RhCT. Os yw'r cynigion yn symud yn eu blaenau, bydd cyllid yn cael ei ailgyfeirio er mwyn sefydlu darpariaethau sy'n mynd i'r afael ag ansawdd y ddarpariaeth arbenigol o fewn RhCT.
Newidiadau i gapasiti Dosbarthiadau Cynnal	Dydy'r cynigion ddim yn cynnwys cynnig mewn perthynas â'r newidiadau i gapasiti'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.

<p>Dysgu sydd wedi cael eu hadleoli i Ysgol Gymuned Y Maerdy ac Ysgol Gymuned y Porth.</p>	
<p>Cwrdd â disgyblion AAA/ADY y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu mewn lleoliadau sydd wedi'u hadleoli.</p>	<p>Bydd yr holl ddisgyblion yn parhau i gael Cynlluniau Addysg Unigol yn unol â gofyniad Cod Ymarfer AAA. Fydd dim newid ymarferol mewn perthynas â sicrhau bod y Cynlluniau Addysg Unigol yn cael eu gweithredu'n briodol. Mae gan yr Awdurdod Lleol weithdrefnau sicrhau ansawdd i sicrhau bod hyn yn wir ar gyfer pob un o'i Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu.</p> <p>Bydd datganiadau o anghenion addysgol arbennig y disgybl yn parhau i gael eu gweithredu cyn, yn ystod ac ar ôl yr adleoliad, os yw'r cynnig yma'n symud yn ei flaen. Bydd cynllun pontio cadarn yn cael ei weithredu i gefnogi'r disgyblion wrth iddyn nhw symud i'r lleoliad newydd. Bydd staff profiadol yn cefnogi disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gan ddweud hynny, dylid nodi y bydd y broses pontio o'r lleoliad blaenorol i'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu presennol llawer yn fyrrach ar gyfer nifer o ddisgyblion. Byddwn ni'n rhannu unrhyw gynlluniau gyda rhieni.</p> <p>Bydd yr adleoliadau sydd wedi'u cynnig yn sicrhau bod modd i ddisgyblion fanteisio ar ddarpariaethau traws-gyfnodol o fewn lleoliadau sydd â darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu wedi'i hen sefydlu. Bydd y cynnig hefyd yn creu cyfleoedd gwell ar gyfer gweithio ar y cyd rhwng y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn cyfnodau gwahanol. Bydd disgyblion a staff yn elwa o'r cyfle yma i rannu arbenigedd.</p> <p>Fydd dim lleihad/newid a ragwelir i'r cymorth sy'n cael ei ddarparu gan asiantaethau/gweithwyr proffesiynol allanol. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth traws-gyfnodol yn cynnig cyfle i'r Awdurdod Lleol ddarparu mewnbyn mwy cyson gan wasanaethau fel y Gwasanaeth Seicoleg Addysg. Bydd modd i'r Awdurdod Lleol wneud hyn trwy ddyrannu holl ddarpariaethau'r lleoliad i un Seicolegydd Addysg er mwyn sicrhau cysondeb.</p>
<p>Manteision ychwanegol adleoli Uned Anhwylder Iaith Hafod i Ysgol Gymuned y Porth.</p>	<p>Bydd adleoli'r ddarpariaeth i Ysgol Gymuned y Porth yn galluogi disgyblion i fanteisio ar staff ag arbenigedd pwnc a chyfleusterau ar gyfer pynciau penodol e.e. ystafelloedd gwyddoniaeth, dylunio a thechnoleg a chyfleusterau Add Gorff. Bydd modd i'r disgyblion fanteisio ar y cyfleusterau arbenigol sydd wedi'u nodi uchod yn rhan o'r ysgol ganol cynhwysiol. Y bwriad yw y bydd gan ddisgyblion o fewn y Dosbarth Cynnal Dysgu fynediad i'r cyfleusterau yma yn unol â'u cyfoedion prif ffrwd. Bydd yr adnoddau yma hefyd yn gwella cyfleoedd i hwyluso dysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog trwy gydol y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol Dau.</p>
<p>Pryderon ynghylch</p>	<p>Mae yna nifer o gyfleusterau lleol y mae modd i ddisgyblion fanteisio</p>

<p>mynediad i gymuned ehangach y Porth o gymharu â'r lleoliad presennol yn Ysgol Gynradd yr Hafod.</p>	<p>arnyn nhw yng nghymuned Y Porth. Mae modd cael mynediad at rai o'r cyfleusterau ar droed, a bydd angen trafniadaeth ar gyfer cyfleusterau eraill, fel sy'n wir ar gyfer y mwyafrif o'r ysgolion yn RhCT.</p>
--	---

Cafwyd ymateb gan ESTYN. Mae modd gweld yr ymateb llawn isod, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion.

7. Ymateb Estyn i'r cynnig gan Rionda Cynon Taf mewn perthynas â chanolfannau cymorth dysgu, a fydd yn dod i rym ym mis Medi 2019.

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad yma wedi'i baratoi gan Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan amodau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae gofyn bod cynigwyr yn anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Serch hynny, does dim gofyn bod Estyn yn gweithredu yn unol â'r Cod, a dydy'r Ddeddf ddim yn gosod unrhyw ofynion ar Estyn mewn perthynas â materion trefniadaeth ysgolion. Felly, ac yntau'n gorff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi ei farn ar fanteision cyffredinol y cynigion o ran trefniadaeth yr ysgol yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried agweddau addysgol y cynnig ac wedi rhoi'r ymateb canlynol i'r wybodaeth sydd wedi'i darparu gan y cynigydd, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion ar gyfer yr ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig.

Mae'r cynnig ymgynghori yma gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (RhCT) Mae'r cynnig yn cynnwys pedair elfen, sy'n cynnwys rhai dosbarthiadau cynnal dysgu (LSCs), adleoli neu ail-ddynodi eraill. Yn ogystal â hynny, y cynnig yw sefydlu rhai darpariaethau newydd. Bydd y cynigion yma'n dod i rym ym mis Medi 2019.

Crynodeb/Casgliad

Dyma gynnig cymhleth a fydd yn ceisio adlunio darpariaeth cymorth dysgu ag anghenion sydd wedi'u nodi o fewn yr Awdurdod Lleol a ehangu gwasanaethau trwy ychwanegu darpariaeth newydd.

Mae'r cynnig yn cynnwys pedair elfen. Sef:

- *Cau Dosbarthiadau Cynnal Dysgu allweddol o ganlyniad i'r ffaith fod dim cadarnhad y bydd disgyblion yn eu mynychu neu am fod y niferoedd yn cwmpo neu oherwydd bod y safle'n anaddas ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion corfforol neu feddygol;*
- *Adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu er mwyn sicrhau bod dosbarthiadau traws-gyfnodol yn cael eu darparu mewn un safle hygyrch;*

- Cynnig i ddatblygu darpariaeth newydd ac
- Ail-ddynodi rhai Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyd-fynd yn well â'r anghenion sydd wedi'u nodi

Barn Estyn yw bydd y cynnig yn debygol o wella safonau darpariaeth addysgol cyfredol ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn y sector cyfrwng Saesneg.

Disgrifiad a manteision

Dyma strategaeth lydan i wella darpariaeth ar gyfer disgyblion ag AAA sy'n cael eu haddysgu yn RhCT. Mae'r strategaeth yn cynnwys darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar, y Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol 2,3 a 4. Mae'r strategaeth yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o anghenion, e.e. rhoi dulliau ymyrraeth gynnar a dulliau ataliol, gan osgoi symud disgyblion o un ysgol i'r llall yn ddiangen, creu capasiti ar gyfer cymorth estyn allan gan ysgolion arbennig ar gyfer darpariaeth prif ffrwdd a lleihau'r lleoedd dros ben.

Mae'r cynnig yn nodi'r sail ddeddfwriaethol gyfredol ar gyfer darpariaeth cymorth AAA ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei hangen. Mae'r cynnig hefyd yn disgrifio ymrwymadau'r Awdurdod Lleol i sicrhau bod gan holl ddisgyblion fynediad priodol i'r gwasanaethau. Mae deilliannau'r gwaith dadansoddi sydd wedi cael ei gyflawni gan yr Awdurdod Lleol yn sylfaen da ar gyfer peidio â pharhau gyda'r sefyllfa bresennol. Mae deilliannau'r dadansoddiad yma'n nodi bod:

- nifer sylweddol o leoedd dros ben yn y sector cynradd
- diffyg darpariaeth yn sector y blynyddoedd cynnar
- diffyg darpariaeth yn y sector uwchradd
- dyraniad y ddarpariaeth ar draws yr Awdurdod Lleol ar hyn o bryd yn golygu bod rhaid i rai disgyblion symud rhwng ysgolion ar ddiwedd cyfnodau allweddol yn ddiangen
- lle i gredu y byddai rhai Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael budd o gael eu hadleoli i ysgolion sy'n gwbl hygyrch ac sydd wedi cael budd o waith moderneiddio a buddsoddi drwy'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Mae'r cynnig yn nodi'n glir pedair elfen wahanol y strategaeth gyffredinol ac yn rhoi sylwadau clir ynglŷn â lleoliadau penodol y ddarpariaeth gyfredol a fydd yn cael ei newid, ar y cyd â dadansoddiad o'r effaith ar bob un ohonyn nhw.

Mae'r cynnig yn cynnwys asesiad ar fanteision ac anfanteision sy'n codi o weithredu'r strategaeth. Fodd bynnag, dydy'r dadansoddiad ddim yn archwilio'r anfanteision sydd wedi'u nodi yn ddigon manwl. Mae mwyafrif y testun yn trafod manteision rhagdybiedig a ffactorau sy'n lliniaru. Er bod y cynsail sy'n honni fod yna ychydig o anfanteision yn debygol o fod yn un gadarn, mae'n anodd dweud yn sicr a yw hyn yn wir oherwydd diffyg y manylion yn y rhan yma o'r cynnig.

Mae'r cynnig yn nodi goblygiadau trafndiaeth sy'n codi o'r strategaeth yn glir. Mae disgwyl y bydd y strategaeth yn arwain at ostyngiad mewn galw am drafndiaeth, o ganlyniad i ddarpariaeth sy'n haws gael mynediad ati ac sy'n cysylltu â'r ardaloedd hynny lle mae'r galw fwyaf. Yn ogystal â hyn, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i ddarparu trafndiaeth ar gyfer y disgyblion hynny sydd ei hangen.

Dydy'r cynnig ddim yn cynnig unrhyw ddadansoddiad neu sylwadau manwl ar effaith y newidiadau hyn ar ddarpariaeth addysg gyfrwng Cymraeg neu ynglŷn â'r angen i ddarparu cymorth iaith Gymraeg ar gyfer disgyblion ag AAA. Mae pob ysgol sy'n cael ei heffeithio gan y strategaeth yn ysgol cyfrwng Saesneg, heblaw am un, sy'n ysgol ddwyieithog.

Mae'r cynnig yn nodi goblygiadau ariannol y strategaeth yn glir yn ogystal â rhai manteision o gau darpariaeth lle nad oes galw neu lle mae galw lleiaf.

Mae'r cynnig yn nodi'r goblygiadau sy'n ymwneud â staff sy'n codi o'r strategaeth. Oherwydd bod staff yn cael eu contractio i weithio ar draws yr Awdurdod Lleol, does dim materion penodol sy'n ymwneud â dileu swydd o ganlyniad i gau'r lleoliad/newid lleoliad ar gyfer darpariaeth benodol.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynnig yn ystyried effaith debygol y strategaeth ar safonau addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth. Mae'r cynnig yn ystyried effaith pob un o'r pedwar newid o fewn y strategaeth ar gyfer pob ysgol unigol lle mae disgwyl gweld effaith. Mae'r dadansoddiad yn cyfeirio'r glir at ddeilliannau archwiliadau Estyn diweddaraf yr ysgolion hyn. Fodd bynnag, dydy'r dadansoddiad ddim yn cyfeirio at wybodaeth mewn perthynas â chategori Consortiwm Rhanbarthol yr ysgolion yma.

8. Casgliad

Rydyn ni wedi defnyddio'r adborth sydd wedi cael ei dderbyn gan randdeiliad er mwyn hysbysu'r cynigion terfynol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet. Yr argymhelliad yw y dylai'r adroddiad yma gael ei gyhoeddi, a dylai hysbysiad statudol gael ei gyhoeddi ar yr adeg briodol.

Ymatebion i'r ymgynghoriad, llythyrau ac e-byst wedi'u sganio

Adborth o'r Ymgynghoriad: Crynodeb o'r sylwadau a gyflwynwyd

Mae sylwadau wedi cael eu hysgrifennu gair am air ble y bo'n addas.

1. Cynigion sy'n ymwneud ag Ysgol Gynradd yr Hafod

Dyma'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gau'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd yr Hafod yw'r canlynol

Roedd pob ymateb yn anghytuno â'r cynnig

Ymatebwr	Math o ymateb i'r ymgynghoriad	Sylw/Mater a godwyd/Gwybodaeth ychwanegol gan yr ymatebwr	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Staff a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd yr Hafod	Llythyr	<p>Doedden ni erioed wedi cael niferoedd dros ben yn ein huned ar gyfer Dosbarthiadau Anhwylderau Cyfathrebu nes y flwyddyn academaidd yma ar ôl i'r Awdurdod Lleol leoli 8 o blant yn ein huned ar gyfer Dosbarthiadau Anhwylderau Cyfathrebu, un mis cyn cyhoeddi'r cynnig yma.</p> <p>Mae holl staff yr ysgol yn adnabod plant ein huned ar gyfer Dosbarthiadau Anhwylderau Cyfathrebu ac yn eu cefnogi nhw. Mae hyn yn amhrisiadwy yn ystod cyfnodau cymdeithasu mwy heriol, fel amser cinio, amser egwyl, yn ystod gwasanaethau a chyfnodau pontio'.</p> <p>'Hefyd, mae modd i ni rannu gwybodaeth mewn modd cyflym ac effeithiol, gan ymateb i anghenion y plant yn fwy rhwydd. Mae hyn wedi bod yn hanfodol mewn sefyllfaoedd mwy heriol.</p> <p>Mae hyfforddiant megis Ymwybyddiaeth Awtistiaeth, Ymyraethau</p>	<p>Mae'r cynnig yn awgrymu adleoli'r ddarpariaeth Hafod ac nid i leihau nifer y lleoliadau CA2 ar gyfer Dosbarthiadau Anhwylderau Cyfathrebu.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

		<p>Llythrennedd a Relax Kids ymhlith yr amrywiaeth o fentrau llwyddiannus sydd wedi cael eu rhannu a'u datblygu yn Ysgol Gynradd yr Hafod.</p> <p>Mae addasu i amgylchiadau newydd a phobl newydd yn rhan angenrheidiol o brofiadau bywyd ac rydyn ni'n cefnogi disgyblion a rhieni trwy gydol y broses yma.</p> <p>Yma yn Hafod, mae gyda ni ddosbarthiadau cymysg, Meithrin/Derbyn, Blynyddoedd 1/2, Blynyddoedd 3/4 a Blynyddoedd 5/6. Mae ein dosbarthiadau yn llai na dosbarthiadau ysgolion prif ffrwd mwy. Mae hyn yn golygu bod modd i ni gynnig cyfleoedd integreiddio o fewn grwpiau bach ar gyfer disgyblion ein Dosbarthiadau Anhwylderau Cyfathrebu mewn modd mwy llwyddiannus nag ysgolion prif ffrwd mwy sydd â dosbarthiadau.</p> <p>Oherwydd ein bod ni'n ysgol fach, mae modd i ni roi cynnig ar drefniadau mwy hyblyg ar gyfer integreiddio academiaidd ac integreiddio cymdeithasol.</p> <p>Mae'r Uned ar gyfer Dosbarthiadau Anhwylderau Cyfathrebu wedi derbyn cefnogaeth y carfanau rheoli a'r Corff Llywodraethu ers 1997.</p> <p>Trwy gydol y blynyddoedd, mae'r ysgol wedi sicrhau bod gan Benaethiaid sy'n cael eu penodi arbenigedd a phrofiad da o weithio gyda</p>	<p>Daeth staff a gafodd eu hadleoli i Ysgol Gymuned y Porth o ysgolion a oedd yn manteisio ar ystod o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod y cymorth yma'n hanfodol er mwyn cefnogi disgyblion wrth iddyn nhw symud i Ysgol Gymuned y Porth pe bai'r cynnig yn symud yn ei flaen.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Mae Pennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Gymuned y Porth yn llwyr gefnogol o leoliad y Darpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu CA3/4 a'r Cyfnod Sylfaen ac yn wedi llwyr ymroi i gynnal darpariaeth CA2.</p>
--	--	--	--

		<p>disgyblion ag ADY.</p> <p>Mae Pennaeth Ysgol Gynradd yr Hafod wedi ymroi i sicrhau tegwch ar gyfer darpariaeth ein Dosbarth Anhwyldeuau Dysgu ac yn parhau i sicrhau bod hyn yn bosibl trwy amrywiaeth o ddulliau gwahanol.</p> <p>Mae amgylchedd cefnogol ein hysgol fach ar y cyd â'r cymorth y gymuned glos yn golygu bod gan ddisgyblion ein Dosbarth Anhwyldeuau Cyfathrebu pob cyfle i ragori mewn cyflwyniadau a dathliadau mwy ffurfiol heb deimlo'n bryderus neu wedi gor-gyffroi gan yr amgylchedd.</p> <p>Does dim modd ailadrodd amgylchedd meithringar bach, carfan fach o staff, dosbarthiadau prif ffrwd bach a'r gymuned glos mewn darpariaeth fawr ar gyfer plant 3-16 oed. Mae'r holl elfennau yma'n cyfrannu at sefydlu amgylchedd tawel, integreiddio llwyddiannus a chyfleoedd gwych ar gyfer disgyblion ein Dosbarth Anhwyldeuau Cyfathrebu.</p> <p>Mae ein Dosbarth Anhwyldeuau Cyfathrebu wedi cael ei gyllido gan yr Awdurdod Lleol am y 21 blwyddyn ddiwethaf. Ond mae'r Dosbarth Anhwyldeuau Cyfathrebu yn fwy na dosbarth sydd wedi'i leoli yn Ysgol Gynradd Hafod yn unig, mae'r dosbarth wedi datblygu i fod yn rhan annatod o'r ysgol ac yn rhan ganolog o ethos a hunaniaeth yr ysgol.</p>	<p>Mae'r Pennaeth yn Ysgol Gymuned y Porth wedi gweithio mewn ysgolion sydd wedi cynnig darpariaeth arbenigol.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
Dosbarth Cynnal Dysgu - Hafod	Llythyr	Mae'n ymddangos fel bod yna diffyg dealltwriaeth ynghylch beth mae llwyddiant y dosbarth yma'n ei olygu i'r plant, a'u hysgol nhw.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

		<p>Mae ein hysgol ni wrth galon ein cymuned, a'n dosbarth ni wrth galon yr ysgol.</p> <p>Rydyn ni'n meithrin ein plant ac yn darparu addysgu arbennig gan sicrhau bod dim un plentyn yn colli allan, beth bynnag yw ei oedran, dosbarth neu allu.</p> <p>Mae disgyblion prif ffrwd Hafod yn croesawu disgyblion ein Huned Anhwylderau Cyfathrebu. Dydyn ni ddim yn trin unrhyw blentyn yn wahanol.</p> <p>Caiff disgyblion yr Uned Anhwylderau Cyfathrebu eu cynnwys mewn dosbarthiadau prif ffrwd ble'n bosibl (gyda chymorth).</p> <p>Mae'r ysgol yma'n perthyn iddyn nhw gymaint ag y mae hi'n perthyn i ddisgyblion prif ffrwd. Pan ddaw eu hamser nhw i symud ymlaen, ar y cyd â'r disgyblion maen nhw wedi cael eu magu a'u datblygu gyda nhw, mae symud i'r ysgol uwchradd o'u dewis nhw wedi bod yn llwyddiannus pob tro.</p> <p>Er fy mod i'n gwerthfawrogi bod Ysgol Gymuned y Porth yn cynnig cyfleusterau newydd arbennig ar gyfer ein disgyblion, mae ein dosbarth yma'n Hafod eisoes yn cynnwys yr holl bethau sydd eu hangen i gefnogi'n disgyblion.</p> <p>Yn ogystal â hyn, mae ein hadroddiadau arolygu pob tro wedi cynnig adborth cadarnhaol mewn perthynas â'n dosbarth.</p>	
Rhiant Disgybl yn Ysgol Gynradd yr	Holiadur	Dydw i ddim yn cytuno â'r cynnig i symud gan fod fy mab newydd ddechrau yn yr ysgol ym mis Medi. Byddai symud unwaith eto yn ei	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

Hafod		<p>ddrysu.</p> <p>Dydy fy mab ddim yn hoffi bod mewn torfeydd mawr gan ei fod yn teimlo'n bryderus.</p> <p>Y dosbarth y mae'n rhan ohono nawr yw'r lle perffaith ar ei gyfer ef gan ei fod yn dawel ei feddwl ac mae ei sgiliau cymdeithasol a'i sgiliau ddysgu yn gwella.</p>	
Gweithiwr Ysgolion Plwyf Pontypridd	Holiadur	<p>Rydw i'n credu'n gryf y bydd y penderfyniad i symud y Dosbarth Cynnal Dysgu o Ysgol Gynradd yr Hafod yn cael effaith fawr ar natur yr ysgol.</p> <p>Maen nhw'n rhan fawr o bob elfen o fywyd ysgol.</p> <p>Byddai symud y disgyblion ddim o fudd i'r dysgwr a byddai'r ysgol yn colli rhan o'i hunaniaeth, o fewn yr ysgol a hefyd o fewn cymuned ehangach Trehafod.</p> <p>Bydd perthnasau sydd eisoes wedi cael eu sefydlu yn diflannu. Bydd yr effaith gynyddol yn ychwanegu rhagor o straen ar gyfer y dysgwyr a'u teuluoedd.</p> <p>Fydd adleoli'r plant yma ddim o fudd iddyn nhw, eu teuluoedd, nag Ysgol Gynradd yr Hafod.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant disgybl Dosbarth Anhwyllder Cyfathrebu Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	<p>Mae fy mab wedi symud pedwar tro wrth geisio dod o hyd i uned ac ysgol sy'n addas iddo ef.</p> <p>O'r diwedd, mae e'n hapus ac wedi setlo yn Ysgol Gynradd yr Hafod, ac yn fy marn i fyddai unrhyw symud yn peri aflonyddwch iddo fe. Fyddai hi ddim yn deg y byddai fe'n gorfod ymglyfarwyddo ag ysgol, athrawon a ffrindiau newydd am y pumed tro.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

		Rydw i wedi gweld bod fy mab wedi gwneud cynnydd mawr ers dechrau yn yr ysgol ym mis Medi, ac mae hynny oherwydd Ysgol Gynradd yr Hafod.	
Rhiant Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	<p>Perthynas gwych rhwng y staff a'r plant.</p> <p>Cyfnodau pontio hawdd ar gyfer y disgyblion yn ystod y diwrnod ysgol.</p> <p>Mae'r plant wedi gwneud ffrindiau pwysig gyda disgyblion o ddsbarthiadau eraill.</p> <p>Mae'r plant yn cael eu cynnwys gyda holl blant eraill yr ysgol.</p> <p>Gwybodaeth arbenigol y staff o fewn yr uned.</p> <p>Byddai'r plant gwir yn gweld eisiau plant Dosbarth Coch.</p> <p>Pam ceisio trwsio rhywbeth sydd eisoes yn gweithio'n dda o fewn yr ysgol.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	<p>Dydy newid ddim yn hawdd i unrhyw un, yn enwedig plentyn ag anabledd.</p> <p>Cynnig cynhwysiant, arbenigedd o fewn yr ysgol gyfan, gyda chymorth cymuned Trehafod.</p> <p>Mae Dosbarth Coch yn gweithio'n dda yn Ysgol Gynradd yr Hafod oherwydd natur y lleoliad. Ydy, mae'r adeilad yn un hen ond mae'n adeilad cyfarwydd iddyn nhw - bydd adeilad newydd oer sy'n edrych fel ysbyty yn achosi pryder mawr i'r plant a bydd hyn yn cael effaith fawr ar eu llesiant.</p> <p>Mae pob plentyn Dosbarth Coch wedi rhagori, beth os yw'r newid yn achosi iddyn nhw gymryd cam yn ôl o ran eu datblygiad nhw.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol

		<p>Mae Dosbarth Coch yn perthyn i Ysgol Gynradd yr Hafod -</p> <p>Mae pob un ohonon ni yn deall bod hyn oherwydd arian, ond beth am i ni feddwl am y person am unwaith.</p>	
Tad-cu/Mam-gu disgybl sy'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	<p>Mae Ysgol Gynradd yr Hafod wedi bod yn rhan o fywyd ein pentref ers sawl cenhedlaeth.</p> <p>Rydw i'n credu bod nifer o ddisgyblion ag anhwylderau cyfathrebu wedi elwa o'r ysgol dros y blynyddoedd ac mae'r ysgol hefyd wedi cyfoethogi bywydau'r rheiny sy'n mynychu'r ysgol.</p> <p>Roeddwn i'n sylwi na fyddai fy mhiant i'n gwingo rhag unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol neu'n teimlo eu bod nhw'n wahanol y tu allan i amgylchedd yr ysgol. Dyma beth sy'n digwydd wrth gynnwys uned Dosbarth Anhwylder Cyfathrebu mewn ysgol gymunedol fach - mae'n addysgu goddefgarwch, dealltwriaeth a thrugaredd ar gyfer eraill. Byddai'r plant yma'n teimlo'n unig, ar wahân ac yn cael eu bwlio mewn lleoliadau eraill, ond yma mae'n meithrin perthnasau.</p> <p>Byddai'n drist iawn gweld ysgol fach yn colli aelodau o staff ymroddgar â'u symud nhw i Ysgol Gymuned y Porth - oherwydd yn Ysgol Gynradd yr Hafod maen nhw'n gofalu am fwy na'u dosbarthiadau unigol, maen nhw'n gymuned - teulu o athrawon sy'n adnabod pob un o'r disgyblion a'i gilydd.</p> <p>Maen nhw'n gweithio fel tîm, ac mae ein plant yn elwa o'r dynamig yma a'r cyfoeth o wybodaeth sydd gyda nhw.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol
Rhiant a chyn-ddisgybl Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	<p>Rhan fawr o lwyddiant y dosbarth yma yw oherwydd y ffordd y mae'r disgyblion yn cael eu hintegreiddio â gweddill yr ysgol.</p> <p>Rydw i'n credu bydd disgyblion Dosbarth Coch a gweddill yr ysgol yn dioddef yn ddirfawr o ganlyniad i'r cynnig yma.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol

<p>Rhiant disgybl a aeth i Ysgol Gynradd yr Hafod ar un adeg</p>	<p>E-bost</p>	<p>Mae'r dosbarth yma'n bwysig iawn i'r disgyblion sy'n ei ddefnyddio, mae fy mab sydd ar y sbectrwm awtistig.</p> <p>Heb gymorth yr athro a'r staff arbennig yn Hafod, fyddai ef ddim wedi cyflawni'r cyfnod pontio i ysgol brif ffrwd cyn symud i'r ysgol uwchradd ac rydyn ni'n amau y byddai ef ddim wedi llwyddo i gyflawni'i radd mewn Dylunio Gemau Cyfrifiadur.</p> <p>Mae'r staff yn y Dosbarth Anhwylderau Cyfathrebu yn arbennig ac mae'r dosbarth yn llinell fywyd i'r plant hynny sydd angen cymorth ychwanegol i gyflawni'u potensial.</p>	<p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol</p> <p>Dydy'r cynnig ddim yn cynnwys cael gwared ar y ddarpariaeth. Mae'r cynnig yn cynnwys adleoli'r ddarpariaeth i Ysgol Gymuned y Porth.</p> <p>Yn dilyn adleoli Dosbarth Cynnal Dysgu'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus i Ysgol Gymuned y Porth ym mis Medi 2018, mae'r Awdurdod Lleol yn hyderus y bydd adleoli Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 2 yr un mor llwyddiannus ac yn cynnig darpariaeth estynedig ar gyfer ei disgyblion.</p>
<p>Rhieni Hafod a'r Corff Llywodraethu</p>	<p>Rhestr o Gwestiynau</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Pam ydych chi'n cynnig yr adleoliad yma? Ydy'r cynnig yn hanfodol? A ydych chi'n barod i wrando ar lais y gymuned sydd yn erbyn y cynnig? 2. Oes modd i chi gynnig sylw ar y gwaith ymchwil sydd wedi cael ei ddatgelu'n ddiweddar sy'n dangos bod safon cyflawniad ysgolion llai yn well na safon yr ysgolion sydd wedi cael eu datblygu'n ddiweddar? 3. Ydych chi'n gwybod bod amgylchedd bach Hafod yn well ar gyfer addysgu plant Awtistig o'i gymharu ag ysgolion mwy sy'n fwy prysur?' 'Faint o'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau sydd wedi cael profiad o anawsterau'r sbectrwm/anawsterau prosesu'r synhwyrau (mewn amgylchedd ffug) er mwyn ceisio deall y newidiadau yma o 	<p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol</p> <p>Mae'r cynigion wedi cael eu trafod a'u cytuno gan weithwyr proffesiynol o fewn yr Awdurdod Lleol sydd â phrofiad helaeth o weithio gyda disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd.</p>

		<p>safbwynt ein plant?</p> <p>4. Rydyn ni wedi ceisio trefnu ymweliad ag uned Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn Ysgol Gymuned y Porth, ond rydyn ni wedi clywed nad yw hyn yn 'addas' ar hyn o bryd. Allwch chi esbonio pam nad oes modd i rieni wneud penderfyniad ar gyfer eu plentyn ynghylch a yw'r Awdurdod Addysg Lleol yn cuddio gwybodaeth bwysig</p> <p>5. Os yw'r cynnig yn symud yn ei flaen, pa mor integredig bydd ein plant ni gyda phoblogaeth gyffredinol yr ysgol? 'A fyddan nhw'n rhannu iard chwarae neu a fydd gyda nhw iard chwarae ar wahân? 'Pa gyfleusterau sydd ar gael yn Ysgol Gymuned y Porth, sut maen nhw'n gwella'r ddarpariaeth a pham nad ydyn ni wedi cael ein gwahodd i'w gweld nhw?</p>	<p>Cafodd ymweliad â'r safle ei drefnu ar gyfer rhieni, er mwyn ymweld â'r Dosbarth Cynnal Dysgu arfaethedig yn Ysgol Gymuned y Porth, ddydd Mercher, 12 Rhagfyr 2018. Daeth tri rhiant i'r ymweliad, ac roedd modd iddyn nhw weld y cyfleusterau newydd a thrafod unrhyw bryderon/materion o bwys gyda'r Pennaeth. Mae ymweliad pellach wedi cael ei drefnu ar gyfer mis Ionawr 2019.</p> <p>Os yw'r cynnig yn symud yn ei flaen, bydd y Dosbarth Cynnal Dysgu yn rhan annatod o fywyd ysgol yn Ysgol Gymuned y Porth a bydd disgyblion a staff yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn rhan o waith cynllunio unrhyw weithgaredd, boed hynny'n addysgol neu allgyrsiol. Bydd disgyblion yn y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu hintegreiddio ar y cyd â'u cyfoedion prif ffrwd ar yr iard chwarae. Bydd gan y Dosbarth Cynnal Dysgu adnoddau newydd</p>
--	--	--	--

		<p>6. Y cynnig yw y bydd plant o'r dosbarth Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd yn symud i Ddosbarth Anhwylderau Cyfathrebu CA2? Sut bydd y dosbarth yn cael ei strwythuro gan fydd gan y plant yma anghenion gwahanol iawn? Faint o blant bydd yn y dosbarth a sut byddwch chi'n sicrhau bod digon o staff ar gael?</p> <p>7. Mae gan blant ein dosbarth Anhwylderau Cyfathrebu anghenion gwahanol yn ystod cyfnodau heb strwythur, er enghraifft amser egwyl, amser cinio, a'r cyfnod rhwng gwarsi. Yn Hafod, caiff yr anghenion yma'u bodloni'n unigol oherwydd natur hyblyg, ethos sy'n maethu ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn - allwch chi gadarnhau'r un lefel o ofal os ydyn nhw'n symud i'r Porth?</p> <p>8. A fydd gan y staff yn uned y Porth amser egwyl wedi'i rannu er mwyn sicrhau bod gan y plant gymorth y mae modd ei adnabod, boed hynny yn y dosbarth, yn y neuadd fwyta neu ar yr iard chwarae? A fyddan nhw'n cael eu cefnogi gan yr ysgol ehangach a'r garfan reoli?</p>	<p>sbon a diweddar gan gynnwys y dechnoleg ddiweddaraf. Bydd yna ystafell synhwyraidd gyda phob dim sydd ei angen. Mae gan y dosbarth gyfleusterau toiledau/ymolchi. Mae'r dosbarth wedi'i leoli o fewn yr adeilad newydd ar gyfer yr adran gynradd. Mae pob cyfleuster yn gwbl hygyrch. Bydd gan ddisgyblion fynediad i'r cae 3G ar y safle.</p> <p>Mae'r meini prawf ar gyfer sicrhau lleoliad yn y Dosbarth Anhwylderau Yn Y Sbectrwm Awtistig ar gyfer y cyfnod sylfaen a'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer Anhwylderau Cyfathrebu yng Nghyfnod Allweddol 2 yr un peth ac felly bydd modd i ddisgyblion â'r un math o anghenion yn manteisio ar y ddwy ddarpariaeth. Felly, bydd disgwyl i ddisgyblion yn y Dosbarth ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd bontio'n hawdd i'r dosbarth CA2. Mae gan y dosbarth CA2 le ar gyfer 8-10 disgybl, ac mae'r gymhareb rhwng staff a disgyblion yn aros yr un fath.</p> <p>Bydd yr un trefniadau yn cael eu gweithredu ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gymuned y Porth a bydd yna ddisgwyliad y</p>
--	--	---	---

		<p>9. A yw eich cynnig yn cynnwys manau bwyta dan oruchwyliaeth sydd i ffwrdd o amgylchedd swllyd yr ystafell fwyta? Ydych chi'n bwriadu cynnig opsiynau ar gyfer manau penodedig ar wahân lle mae modd i blant fynd os ydyn nhw angen amser boed hynny yn ystod amseroedd</p> <p>10. Yn Hafod, os yw aelod o staff y Dosbarth Anhwylderau Cyfathrebu yn absennol, bydd yr ysgol yn sicrhau bod aelod o staff nodedig o'r ysgol yn y dosbarth gyda'r plant a bod staff wrth gefn yn cael eu rhoi mewn dosbarth gwahanol i sicrhau cysondeb ar gyfer y plant sydd ei angen mwyaf. A fydd y staff yn uned Dosbarth Anhwylderau Cyfathrebu Ysgol Gymuned y Porth yn aros yn gyson? Beth sy'n digwydd os yw un o'r aelodau staff yn sâl? A fydd staff yn derbyn yr hyfforddiant addas er mwyn cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?</p> <p>11. Allwch chi amlinellu sut rydych chi wedi sicrhau bod ein plant ni, sy'n rhan o grŵp lleiafrifol yn y system addysg, yn cael eu blaenoriaethau'n rhan o'ch gweithdrefnau gwneud penderfyniadau yn unol â'r Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol?</p>	<p>bydd anghenion unigol pob disgybl sy'n defnyddio darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar draws RhCT yn cael eu bodloni yn ystod cyfnodau â strwythur a chyfnodau heb strwythur yn yr ysgol.</p> <p>Bydd trefniadau ar gyfer staff yn cael eu llunio i sicrhau bod anghenion y disgybl yn cael eu bodloni ar bob adeg yn ystod y diwrnod ysgol. Mae'r Pennaeth wedi mynegi ymrwymiad llwyr o ran cefnogi disgyblion a staff yn y Dosbarth Cynnal Dysgu yng Nghyfnod Allweddol 2, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r Dosbarth ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectwm Awtistaidd yn y Cyfnod Sylfaen a dosbarthiadau CA3/4.</p> <p>Ble'n bosibl, bydd disgyblion yn cael eu cynnwys gyda'u cyfoedion prif ffrwd yn ystod amser cinio/cyfnodau heb strwythur. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn cael ei ystyried fel ei fod er lles pennaf y disgyblion unigol, bydd ardaloedd gwahanol yn cael eu darparu ac/neu amseroedd gwahanol i alluogi disgyblion i gymryd rhan yn y gweithgareddau yma ar adeg wahanol. Byddwn ni'n gweithredu</p>
--	--	---	---

		<p>12. Mae gan bob plentyn yn ein huned Gynllun Addysg Unigol a thargedau. Mae'r rhain wedi cael eu teilwra i'w helpu nhw i lwyddo yn amgylchedd yr ysgol. Sut byddai Ysgol Gymuned y Porth yn bwriadu cynnal y rhain ac annog rhyngweithio, boed hynny mewn lleoliad un wrth un neu mewn sefyllfa grŵp yn ystod cyfnodau heb strwythur?</p> <p>13. Mae gan y Cyngor ddyletswydd gofal cyfreithiol i gefnogi plant ag Anghenion Addysgol Arbennig ar sail eu datganiadau. Pe bai'r cynnig yma'n symud yn ei flaen, fyddai'r misoedd sy'n weddill cyn i'r cynnig newydd ddod i rym ddim yn ddigonol ar gyfer plant mewn addysg prif ffrwd, heb sôn am y rheiny sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig. Pa gynllun gofal sydd eisoes yn cael ei weithredu? Dylai fod hawl gyda ni weld y cynllun yma cyn gynted ag sy'n bosibl er mwyn sicrhau bod anghenion y plant yn cael eu bodloni.</p> <p>14. Heblaw adeilad newydd, hoffon ni ddeall pam rydych chi'n ystyried y Porth fel amgylchedd dysgu gwell a mwy cefnogol?</p>	<p>pob addasiad rhesymol.</p> <p>Bydd staff Ysgol Gymuned y Porth yn gyson. Bydd cyfrifoldeb gan yr uwch dîm arwain o ran trefniadau cyflenwi. Byddan nhw'n effro i anghenion disgyblion ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistaidd yn y Dosbarth Cynnal Dysgu oherwydd eu bod nhw wedi cynnal dosbarthiadau CA3/4 a'r Dosbarth ar gyfer y Disgyblion ag Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistaidd y Cyfnod Sylfaen. Byddwn ni'n gwneud pob ymdrech i sicrhau staff cyflenwi sydd â phrofiad o weithio gyda phlant ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd. Fodd bynnag, does dim modd i unrhyw ysgol sydd â Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer plant ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd warantu hyn.</p> <p>Mae gwella darpariaeth arbenigol ar gyfer disgyblion RhCT wrth galon y broses gwneud penderfyniadau mewn perthynas â'r cynigion. Mae pob penderfyniad wedi cael ei wneud gan roi ystyriaeth lawn i anghenion y disgyblion a gyda'r bwriad o ddarparu darpariaeth arbenigol o safon uchel, sy'n gwbl hygyrch ac sy'n addas ar</p>
--	--	---	--

		<p>15. Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, a fydd y plant yn elwa o ymweliadau allanol hirach neu fwy cyson? Er enghraifft ymweliadau gan seicolegwyr addysg, y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ('CAMHS') yn y Porth.</p> <p>16. Rydyn ni'n deall bod llai o gyfnodau pontio wedi cael ei nodi fel rheswm dros adleoli, ond byddan nhw hefyd yn symud i'r Porth, i ddsbarthiadau newydd ac adeiladau newydd - sut mae modd ystyried hyn fel gwelliant? A sut byddan nhw'n cael eu paratoi ar gyfer y pontio mewnol hyn mewn ffordd well na'r ffordd rydyn ni'n eu paratoi nhw yn Hafod?</p> <p>17. Allwch chi esbonio sut bydd integreiddio'r plant mewn gwarsi bob dydd yn cael ei reoli mewn amgylchedd ysgol llawer mwy? 'Hefyd sut byddwch chi'n sicrhau bod myfyrwyr Dosbarth Anhwyldeu Dysgu Ysgol Gymuned y Porth yn cael y cyfle i bontio i ddsbarthiadau prif ffrwd fel bod modd iddyn nhw gyflawni'r deilliannau gorau posibl?</p> <p>18. Allwch chi esbonio sut bydd cynlluniau'r Porth i hwyluso dysgu ychwanegol ar gyfer dysgwyr sy'n ddawnus mewn pwnc penodol?</p> <p>19. Ydych chi wedi cynllunio darpariaeth ar gyfer gweithgareddau hamdden ac achlysuron allgyrsiol, gan gynnwys chwaraeon, ar gyfer disgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)? A fydd ein plant yn cael eu cynnwys yn rhan o weithgareddau ysgol gyfan fel y maen nhw'n cael eu cynnwys yn Hafod? Sut bydd y gweithgareddau yma'n</p>	<p>gyfer yr 21^{ain} Ganrif ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth arbenigol mewn Dosbarth Cynnal Dysgu o fewn lleoliad prif ffrwd hollgynhwysol.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
--	--	--	--

		<p>cael eu rheoli fel eu bod nhw ddim drysu'r plant?</p> <p>20. Sut byddwch chi'n cwrdd ag anghenion y plant yn ystod yr amser teithio i'r ysgol ac yn ôl sydd wedi cael ei gynnig? Rheoli amseroedd dechrau/gorffen yr ysgol yn effeithiol? Strategaeth i gwrdd â materion prosesu'r synhwyrâu yn ystod cyfnodau pontio? Amseroedd teithio hirach posibl? Problemau parcio/trafnidiaeth anhrefnus sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gymuned y Porth?</p> <p>21. A fydd pob plentyn yn gymwys i dderbyn trafndiaeth yn rhan o'r cynnig yma? Neu a fydd y drafndiaeth yn cael ei phennu yn ôl pellter? A fydd plant 3-16 oed yn rhannu'r drafndiaeth yma?</p> <p>22. Oes clwb brecwast ar gyfer plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn y Porth? Allwch chi ehangu ar sut fydd hyn yn cael ei integreiddio â phlant eraill?</p> <p>23. Os nad yw hyn yn mynd i arbed arian, a oes modd i ni ddewis i aros yn y lleoliad lle mae'r plant eisoes yn llwyddo?</p>	<p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Does dim tystiolaeth sy'n awgrymu na fydd cyfnod pontio mewnol yn cael ei gynnal yn y modd addas yn Ysgol Gymuned y Porth. Does dim pryderon wedi cael eu codi gan ddisgyblion, rhieni na staff y dosbarth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd. Mae'r Pennaeth wedi mynegi ei hymrwymiad cyflawn i sicrhau bod disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael eu trin yn gynhwysol ar y cyd â'u cyfoedion prif ffrwd. Bydd staff yn y Dosbarth Cynnal Dysgu yn parhau i ddefnyddio'u harbenigedd i gefnogi disgyblion mewn modd addas.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
--	--	--	--

		<p>24. Onid yw'r cynnig yma'n cael gwared ar hawl y rhiant i ddewis?</p> <p>25. A fydd disgwyl i frawd/chwaer neu aelod o'r teulu sydd hefyd yn ddisgybl yn Hafod adleoli hefyd?</p> <p>26. Pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r uned, ac rydyn ni'n penderfynu apelio - a byddwn ni yn gwneud hyn - a fydd modd ailgyflwyno'r ddeiseb, neu a fydd angen i ni lunio deiseb newydd a thystiolaeth bellach? A yw'n wir fod y Ddeiseb dim ond yn cyfrif fel un gwrthwynebiad, beth bynnag yw nifer y llofnodion arni?</p> <p>Gallaf ddweud yn sicr bod angen i Ddosbarth Coch aros yn Ysgol Gynradd yr Hafod. Mae disgyblion Dosbarth Coch yn rhan o Ysgol Gynradd yr Hafod cymaint ag y mae unrhyw ddisgybl arall. Doedden nhw ddim yn cael eu trin yn wahanol ac maen nhw wedi cymryd rhan yng ngwasanaethau'r ysgol a sioeau'r ysgol ac rydw i wedi treulio sawl amser chwarae gyda disgyblion Dosbarth Coch. Fodd bynnag, yn ystod fy amser i yn Ysgol Gymuned y Porth, mae modd i ni gyfri ar un llaw faint o weithiau welais i'r disgyblion hynny. Doedden nhw ddim wedi cael eu cynnwys mewn Gwasanaethau/Eisteddfodau ac ati...</p>	<p>Mae Ysgol Gymuned y Porth yn cynnig ystod o weithgareddau allgyrsiol ar gyfer y disgyblion. Mae'r Dosbarth ar gyfer Disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd yn cael ei gynnwys mewn gweithgareddau ar gyfer yr ysgol gyfan a gweithgareddau allgyrsiol ar y cyd â'u cyfoedion prif ffrwd. Bydd y dosbarth CA2 hefyd yn cael ei gynnwys yn y pethau uchod. Does dim pryderon wedi cael eu codi gan ddisgyblion, rhieni neu staff Dosbarth Cynnal Dysgu'r Cyfnod Sylfaen mewn perthynas â disgyblion</p> <p>Mae trefniadau penodol yn eu lle ar hyn o bryd ar gyfer y rheiny sy'n rhan o Ddosbarth y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Disgyblion sydd ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd o ran cyrraedd/gadael yr ysgol mewn ardal ar wahân ar safle'r ysgol. Mae amseroedd dechrau a gorffen yr ysgol yn cael eu gwasgaru ac yn wahanol i amseroedd</p>
--	--	--	--

			<p>dechrau a gorffen y safle uwchradd. Does dim pryderon wedi cael eu codi gan rieni, disgyblion na staff Uned y Cyfnod Sylfaen ar gyfer disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistaidd. Bydd y dosbarth yma ar yr un safle â'r Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer CA2. Mae gan staff brofiad am ofalu am anghenion synhwyrdd y disgyblion. Dydy'r Awdurdod Lleol ddim wedi arsylwi unrhyw faterion parcio/trafnidiaeth anhrefnus.</p> <p>Mae'r holl drefniadau yn parhau i weithredu mewn modd effeithiol yn unol â Pholisi Teithio gan Ddysgwyr RhCT. Fyddai ddim yn addas i gludo disgyblion o oedran gwahanol gyda'i gilydd.</p> <p>Bydd clwb brecwast ar gael i holl blant Ysgol Gymuned y Porth ac mae'r ddarpariaeth yma'n hollgynhwysiol.</p> <p>Mae gan yr Awdurdod Lleol ddyletswydd i fonitro ac adolygu ei ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar draws RhCT yn barhaus i sicrhau ei fod yn defnyddio'i adnoddau mewn modd effeithiol ac effeithlon i gwrdd ag anghenion disgyblion sydd angen darpariaeth Dosbarth Cynnal</p>
--	--	--	---

<p>Datganiad gan gyn-ddisgybl Ysgol Gynradd yr Hafod:</p>			<p>Dysgu. Bydd hyn yn arwain at yr Awdurdod Lleol yn gwneud penderfyniad i gau, adleoli neu ailddyrrannu darpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ar sail anghenion sydd wedi'u nodi. Fodd bynnag, fel sydd wedi'i amlinellu yn y ddogfen ymgynghori bydd gan rieni'r opsiwn i symud eu plentyn i Ysgol Gymuned y Porth neu bydd modd cynnal trafodaethau gyda theuluoedd unigol i drafod pecyn unigryw o fewn darpariaeth prif ffrwd.</p> <p>Dewis y rhiant fydd hyn.</p> <p>Byddai angen cyflwyno deiseb newydd. Byddai modd cyflwyno tystiolaeth bellach. Caiff y ddeiseb ei chofnodi fel deiseb a bydd nifer y llofnodion yn cael eu nodi o fewn y ddogfen ymateb i'r ymgynghoriad.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol</p>
<p>Ffrind neu riant</p>	<p>Holiadur</p>	<p>Mae'r cynnig yma'n peri achosi drysu emosiynol i blant Dosbarth Coch a'u teuluoedd. Mae'r plant yma'n agored i niwed yn emosiynol a dylen nhw ddim gorfod delio â'r straen y bydd y newid diangen yma'n achosi iddyn nhw.</p> <p>Mae'r plant yma'n hapus ac yn llwyddo lle maen nhw, sut byddan nhw'n</p>	<p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

		elwa o symud i amgylchedd mwy, anghyfarwydd sy'n ddieithr iddyn nhw.	
Ffrind i'r teulu un o ddisgyblion yr Uned Anhwylder laith.	Holiadur	Mae fy nghefnidir yn hapus yn ei ysgol ar hyn o bryd ac rydw i'n teimlo y byddai'r newid yn cael effaith niweidiol ar ei addysg.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Ffrind i riant un o ddisgyblion yn yr Uned Anhwylder laith	Holiadur	Pam symud plant sy'n agored i niwed yn gymdeithasol, sy'n hapus ac sy'n llwyddo i ysgol newydd, mwy sy'n fwy, a sy'n rhoi llai o sylw i'r mater. Sut mae modd i'r ysgol newydd ddarparu'r gofal arbenigol y maen nhw wedi arfer ag ef? Drysu emosiynol ar gyfer y plant a'r teuluoedd, dim arweiniad o ran sgiliau arbenigol, anghenion y plant, mae gan y plant yr holl bethau sydd wedi cael eu haddo yn Hafod - pam newid ac achosi cyffro.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Ffrindiau	Holiadur	Dosbarth bach neis mewn ysgol hyfryd	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant cyn-ddisgybl	Holiadur	Byddai'n neis cadw Hafod ar gyfer y gymuned leol. Gobeithio er mwyn cadw'r ysgol yn y pentref.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Mae Ysgol Gymuned y Porth yn agos i Drehafoed.
Teulu disgybl anhysbys	Holiadur	Dylai Plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) gael eu hintegreiddio mewn lleoliad lleol.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler uchod
Ffrind Disgybl	Holiadur	Pryderon ynghylch darpariaeth fawr a'r effaith bydd hyn yn cael ar y plant, yr effaith bydd y newid o ddarpariaeth yn ei chael ar y plant. Manteision y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon a'r Clwb Brecwast yn y ddarpariaeth gyfredol. Effaith ar y gymuned o ran colli darpariaeth Ysgol Gynradd yr Hafod.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant a chyn-	Holiadur	Ar hyn o bryd mae plant y Dosbarth Cynnal Dysgu yn cymdeithasu â	Caiff disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu

ddisgybl Ysgol Gynradd yr Hafod.		<p>phlant y brif ffrwd sy'n bwysig iawn ar gyfer eu cynnydd nhw.</p> <p>Os yw'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei adleoli i Ysgol Gymuned y Porth, bydd y plant yn cael eu gwahaniaethu o'r brif ffrwd.</p>	yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 3/4 yn Ysgol Gymuned y Porth eu cynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol, gan gynnwys cyflwyniadau ffurfiol. Mae disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu'r Cyfnod Sylfaen wedi cael eu cynnwys mewn gweithgareddau Nadolig fel y cyngerdd Nadolig a theithiau hamdden.
Rhiant a chyn-ddisgybl Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Rhaid i blant gael eu cynnwys	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler uchod
Rhiant disgybl Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	<p>Bydd hyn o fudd i ddisgyblion</p> <p>Bydd lleihau nifer y disgyblion yn Hafod yn arwain at gau'r ysgol i bob disgybl.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Athro Cyflawni Cyson	Holiadur	Ar yr arwyneb, efallai byddai'n ddigon rhesymol i drosglwyddo unrhyw ddsbarth o un lleoliad i'r llall gydag ychydig bach o effaith neu ddim effaith o gwbl. Byddai modd maddau i chi am feddwl bod un gymuned yn anwhanaol i rywbeth arall. Mae'r ysgol yn amlwg yn meithrin ethos o deulu agos sydd wedi'i seilio ar fod yn rhan o gymuned fawr ehangach.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Dienw	Holiadur	Mae'r ysgol o hyd wedi cynnig y cyfleuster yma a dylen nhw barhau i wneud hynny.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant Disgybl yn Ysgol Gynradd yr	Holiadur	Fyddai plant Dosbarth Coch ddim yn derbyn y gofal sydd ei angen arnyn nhw yn Ysgol Gynradd yr Hafod.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

Hafod			
Ffrindiau Rhieni Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae plant Dosbarth Coch, Ysgol Gynradd yr Hafod, wedi setlo'n dda ac mae wedi cymryd amser hir i wneud hyn felly peidiwch â'u symud nhw. Peidiwch â symud ein plant, peidiwch â'u symud nhw i ffwrdd o bob dim sy'n gyfarwydd iddyn nhw, mae Hafod yn ysgol wych.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant cyn-ddisgybl Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae'n hanfodol bod gyda ni'r cyfleuster yma yn y gymuned.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Bydd Dosbarth Coch yn cael eu d a fyddan nhw ddim yn derbyn yr un addysg ag y maen nhw yn Hafod. Dydy ein plant ni ddim yn hoffi newid, plis peidiwch â'u symud nhw i ysgol arall.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Rydyn ni'n caru ein dosbarth a dydy hi ddim yn deg bod plant yn cael eu symud i ysgol arall. Mae ein plant yn cymdeithasu gyda'i gilydd yn ystod amser chwarae ac amser cinio ac yn rhan o bob dim rydyn ni'n ei wneud.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

Cyn-ddisgybl Ysgol Gynradd yr Hafod ac Ysgol Gymuned y Porth	Holiadur	Mae disgyblion Dosbarth Coch yn rhan o Ysgol Gynradd yr Hafod, cymaint ag unrhyw ddisgybl arall. Yn ystod fy amser yn Ysgol Gymuned y Porth, mae modd imi gyfrif ar un llaw sawl gwaith welais i'r disgyblion hynny. Doedden nhw byth yn cael eu cynnwys mewn Gwasanaethau/Eisteddfodau ac ati.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae Dosbarth Anhwyllder Cyfathrebu llwyddiannus wedi bodoli yn Ysgol Gynradd yr Hafod ers dros 21 mlynedd, felly rwy'n anghytuno'n gryf gyda'r cynnig. Mae'r ysgol hygyrch yma, gyda'r gymuned yn gefn iddi, a'i hadroddiad arolygu gwych yn rhoi cyfle i bob plentyn integreiddio a chael ei gynnwys a'i dderbyn. Mae'r disgyblion a'u rhieni yn hapus dros ben yma yn Ysgol Gynradd yr Hafod, diolch i ethos, dealltwriaeth ac ymrwymiad pob aelod o staff yn yr ysgol, nid dim ond staff Dosbarth Coch. Mae wedi'i brofi bod modd i newid ysgolion ac amgylcheddau achosi effeithiau negyddol yn academiaidd a chymdeithasol ar gyfer	Does dim tystiolaeth bod adleoli Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn y gorffennol wedi cael effaith andwyol ar ddisgyblion. Ym mis medi, roedd y Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Sylfaen wedi'i adleoli o Ysgol

		unrhyw blentyn, sy'n arwain at straen. Mae astudiaethau wedi nodi bod symudedd myfyrwyr yn ffactor sy'n cyfrannu yn enwedig ym meysydd ymgysylltu a phresenoldeb yr ysgol. (Dobson Henthorne & Lynas 2000, Hill & Doyle 2012, Reynolds, Chen & Herbers 2009).	yr Eos i Ysgol Gymuned y Porth.
Athro/Athrawes Dosbarth	Holiadur	Mae'r uned yma'n rhan o amgylchedd bach a gofalgwr sy'n caniatáu i'r disgyblion ennill hyder a datblygu eu hannibyniaeth. Mae yna berthnasau gwych rhwng y Rhieni, y Staff a'r Pennaeth. Mae'r cyfathrebu rhwng pob parti hefyd yn wych, lle mae modd i rieni sydd ag unrhyw bryderon siarad â staff, gan gynnwys y Pennaeth, yn syth. Mewn lleoliad mwy o faint, dydy hynny ddim yn bosibl. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda, ac yn deall anghenion pob un sydd yn yr uned. Mae disgyblion Dosbarth Coch wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mywyd yr ysgol, yn gwneud ffrindiau agos gyda disgyblion o'r dosbarthiadau prif ffrwd ac yn chwarae rhan lawn ym mhob gweithgaredd yn yr ysgol.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Ffrind i ddisgybl a'i deulu	Holiadur	Effaith ar sut y bydd y newid yn effeithio ar y plant, efallai bydd lleoliad modern a newid i'r gweithgareddau yn anghyfforddus i'r plant. Bydd y cynnig yn cael effaith sylweddol ar Ysgol Gynradd yr Hafod.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i Ddisgybl yn Nosbarth Cynnal Dysgu Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur gyda gwybodaeth ategol ychwanegol, cyfeiriwch at atodiad 4	A yw'r adleoli yn hanfodol? Pa dystiolaeth sydd gennych chi fod Uned Anhwylder Cyfathrebu CA2 Ysgol Gymuned y Porth yn ddarpariaeth 'well' na'r hyn sydd yn Uned Anhwylder Cyfathrebu Ysgol Gynradd yr Hafod? Pam y cafodd Ysgol Gymuned y Porth ei hadeiladu, a'i chynlluniau wedi'i harddangos sy'n nodi 'Dosbarthiadau Anghenion Addysgol Arbennig' yn glir lle nad oedd darpariaeth Uned Anhwylder Cyfathrebu cyn i'r ysgol gyfuno, a lle nad oes darpariaeth CA2 ar hyn o bryd. Pam y mae'r Awdurdod Lleol wedi cadarnhau bod swyddi staff yr Uned Anhwylder Cyfathrebu 'ddim yn ddiogel'?	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

		<p>Sawl lle fydd ar gael yn y ddarpariaeth CA2 yn Ysgol Gymuned y Porth?</p> <p>Os oes Unedau Anhwylder Cyfathrebu CA2 eraill yn bodoli yn RhCT, a bod disgyblion yn pontio i CA3 yn Ysgol Gymuned y Porth, pam nad oes modd i Ddosbarth Anhwylder Cyfathrebu Ysgol Gynradd yr Hafod aros ar agor a gwneud yr un peth?</p> <p>Oes perygl y bydd Dosbarthiadau Anhwylder Cyfathrebu eraill yn RhCT yn cau, ac felly yn golygu bod un dosbarth mawr yn Ysgol Gymuned y Porth yn y dyfodol?</p> <p>Bydd darpariaeth Ysgol Gymuned y Porth yn diwallu Anghenion Dysgu Ychwanegol y plant yn yr Uned Anhwylder Cyfathrebu?</p> <p>Oes modd i chi ddweud beth fydd gan blant yr Uned Anhwylder Cyfathrebu yn narpariaeth Ysgol Gymuned y Porth sy'n 'well' na'r hyn y mae Ysgol Gynradd yr Hafod eisoes yn ei gynnig?</p> <p>Bydd fy mab dal i fod yn gymwys i dderbyn cludiant i'r ddarpariaeth arfaethedig, ac yn ôl?</p>	<p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiadau parhaus o'i ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
--	--	---	--

77 o ymatebwyr	Roedd gan y ddeiseb ar-lein ddewis i gyflwyno sylwadau ychwanegol	Roedd y sylwadau yn debyg iawn i'r hyn sydd eisoes wedi'i dderbyn a'i nodi uchod. Roedd 77 o ymatebwyr wedi cyflwyno sylwadau drwy'r ddeiseb ar-lein. Deallir bod cyfle i lofnodwyr ychwanegu sylwadau ychwanegol. Copïodd aelod o'r Corff Llywodraethu'r sylwadau i daflenni unigol.	Mae barn pob ymatebwr wedi'i nodi.
Ewythr i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae Dosbarth Coch wedi bod yn ddosbarth gwych, ac mae'r plant wedi datblygu'n dda yno. Pam fod angen cau rhywbeth sy'n gweithio mor dda? Pryderon dros gyfranogiad integreiddiol llawn ym mhob gweithgaredd ysgol. Dydy lles y plant ddim wedi cael ei ystyried.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae'r plant yn hapus iawn ac maen nhw wedi ymgartrefu'n dda. Mae'r uned yn wych ac mae'n dda i'r ysgol gael amrywiaeth o unigolion.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Modryb i ddisgybl o Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae'r dosbarth wedi bod yn gweithredu'n llwyddiannus ers 21 mlynedd, pam fod angen ei gau? Pryder o ran cludiant ar gyfer un disgybl oherwydd yr adleoliad. Dim tystiolaeth sy'n dangos bod y Porth yn ddarpariaeth addas.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol. Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant i ddisgybl yn Uned Anhwylder Cyfathrebu	Holiadur	Rwy'n gwrthwynebu'r cynnig gan fy mod i'n teimlo nad yw adleoli er lles gorau fy mhlentyn. Ers iddo fynychu Ysgol Gynradd yr Hafod, mae anghenion fy mab wedi'u deall a'u diwallu. Roedd e wedi'i siomi yn y gorffennol gan yr Awdurdod Addysg Lleol, gweithwyr ieuchyd proffesiynol a	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

Ysgol Gynradd yr Hafod		<p>chyfyngiadau difrifol (cyllid, dosbarthiadau mawr a brwydr i gael cymorth).</p> <p>Rwy'n poeni am yr oedi o ran mynd i ymweld â'r ddarpariaeth newydd.</p> <p>Bydd y cynnig o fudd i'r ysgol ond nid fy mhlentyn. Rwy'n poeni am y sylw a gafodd ei wneud 'we need excellence to be excellent'</p> <p>Does dim tystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y newidiadau yma'n gweithio, mae angen i Ysgol Gymuned y Porth brofi ei bod yn ysgol ardderchog - mae Ysgol Gynradd yr Hafod eisoes yn ysgol ardderchog!</p> <p>Dw i ddim yn fodlon i fy mab i fod yn arbrawf.</p> <p>Does dim digon o amser i ddechrau'r ysgol os ydy'r cynnig yn mynd rhagddo - dydy 11 wythnos i bontio ddim yn dderbyniol.</p> <p>Pryder dros les fy mhlentyn. Gan nad oes tystiolaeth y bydd hyn yn gweithio, rwy'n credu y dylai contract gael ei gynnig. Beth os ydy penderfyniad yr Awdurdod Addysg Lleol yn methu fy mab ac yn cael effaith andwyol ar ei addysg. Dydy cynnig pecyn gofal pwrpasol i aros ym Mhrif Ffrwd Ysgol Gynradd yr Hafod ddim yn ddewis i ni gan fod fy mab yn ddisgybl â datganiad - mae gan yr Awdurdod Addysg Lleol ddyletswydd gofal. Mae adleoli yn peryglu hyn.</p> <p>Pam na chafodd yr adleoliad ei ystyried ar gyfer mis Medi 2018 gyda disgyblion Cyfnod Allweddol 1 o ddarpariaethau sydd wedi cau? Roedd cyfleusterau Anghenion Addysgol Arbennig wedi'u nodi'n glir ar gynlluniau y Porth yn 2016. Rwy'n teimlo bod Uned Anhwylder Cyfathrebu CA2 Ysgol Gynradd yr Hafod yn gaeth er mwyn llenwi bwch y mae'r Awdurdod Addysg Lleol wedi'i greu.</p>	
Aelod o'r Gymuned	Holiadur	Does dim arwydd cadarnhaol bod ysgol o'r fath yma yn gweithio ar gyfer y plant dan sylw, mae'n rhy fawr i blant ag anghenion arbennig - mae angen eu meithrin.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd	Holiadur	Dydy'r ysgol newydd ddim yn ystyried anghenion y plant yn unigol. Mae Ysgol Gynradd yr Hafod yn berffaith ar gyfer y plant yma.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.

yr Hafod			
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod.	Holiadur	Anfonon nhw fy ŵyr i'r ysgol newydd a chafodd ei adael ar y llawr yn crio oherwydd roedd ef wedi aflonyddu a doedd gan neb ddiddordeb ynddo.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Ewythr i ddisgybl yn yr Uned Anhwylder Cyfathrebu	Holiadur	Mae'r uned yn darparu anghenion addysgol rhagorol ar gyfer fy nai, ac mae e'n mwynhau mynd yno. Mae e'n gofidio y bydd yr uned yn cau. Peidiwch â chau'r uned.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod.	Holiadur	Gormod o adroddiadau gwael am yr ysgol newydd.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Dwi'n meddwl bod symud y plant yn ddiangen, ac mae'n achosi mwy o broblemau i'r plant nag y mae manteision. Lles a hapusrwydd y plant.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae'r plant yn rhan bwysig o'r ysgol	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Angen o fewn yr ysgol	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Aelod o'r Gymuned - Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Effaith sylweddol ar yr ysgol a'r gymuned ehangach. Effaith ar ddisgyblion - niweidiol i les y plant.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.

Aelod o deulu disgybl yn Uned Anhwylder Cyfathrebu Ysgol Gynradd yr Hafod.	Holiadur	Mae fy nai yn hapus yn ei ysgol bresennol, ac rwy'n teimlo y bydd y newid hwn yn cael effaith niweidiol ar ei addysg.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Aelod o deulu disgybl yn Uned Anhwylder Cyfathrebu Ysgol Gynradd yr Hafod.	Holiadur	Bydd yn cael effaith negyddol ar aelod o'r teulu sy'n mynychu'r dosbarth. Nid yw cau'r dosbarth er lles gorau'r unigolyn; mae'n ymwneud â chost effeithlonrwydd ar gyfer Cyngor RhCT.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Rhiant y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon sydd â phlentyn sydd wedi symud i flwyddyn 7 yn ddiweddar - Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Rwy'n credu bod plant ag unrhyw anabledd dysgu yn ffynnu'n well mewn darpariaeth lai o faint. Mae'r ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd yr Hafod yn llwyddiannus, mae'n gweithio i'r holl ddisgyblion sy'n defnyddio'r dosbarth ac maen nhw'n dysgu i ymdopi a datblygu mewn amgylchedd ysgol fechan.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Mam-gu/Tad-cu i ddisgybl yn Ysgol Gynradd yr Hafod	Holiadur	Mae disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd yr Hafod wedi'u hintegreiddio'n llawn â'r disgyblion eraill. Mae modd i ddisgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu gymysgu, cyfathrebu a chwarae â'u cyfoedion. Mae hanes a straeon llwyddiant y Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd yr Hafod yn dweud cyfrolau. Mae'n fiwrocratiaeth ffôl i newid. Pam mae rhaid ceisio newid rhywbeth sy'n gweithio'n dda?	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Themâu allweddol yn ymatebion yr ymgynghoriad ar Ysgol Gynradd yr Hafod:			
1. Effaith ar ddisgyblion			

2. Ar hyn o bryd mae Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cael eu cynnal mewn lleoliadau prif ffrwd llai
3. Trosglwyddo disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu presennol i leoliadau Dosbarth Cynnal Dysgu newydd
4. Adleoli staff a newidiadau o ran telerau ac amodau'u cyflogaeth
5. Cynnwys plant Anghenion Addysgol Arbennig yn y lleoliadau prif ffrwd
6. Cau lleoliadau prif ffrwd
7. Rhesymeg dros y newid
8. Colli darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu o'r ysgol bresennol a cholli staff addysgu
9. Trafodaethau ynghylch darpariaeth disgyblion unigol
10. Pryderon ynghylch ansawdd y Dosbarth Cynnal Dysgu newydd, lle mae'r Dosbarth Cynnal Dysgu presennol eisoes wedi'i ystyried yn llwyddiannus
11. Gostwng cyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol
12. Diwallu Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn y ddarpariaeth newydd
13. Manteision ychwanegol o adleoli Uned Anhwylder Cyfathrebu Ysgol Gynradd yr Hafod i Ysgol Gymuned y Porth
14. Pryderon ynghylch mynediad i'r gymuned ehangach yn y Porth o'i gymharu â'r lleoliad presennol yn Ysgol Gynradd yr Hafod
- 15.

2. Cynigion Ysgol Gynradd Pen-rhys

Dyma'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gau/adleoli'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Pen-rhys

Roedd yr holl ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig

Ymatebwr	Math o ymateb i'r ymgynghoriad	Sylwadau / Pwyntiau wedi'u codi / Gwybodaeth Ychwanegol gan yr ymatebwr	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Cwestiynau gan Lywodraethwyr Ysgol Gynradd Pen-rhys	Wedi'u cyflwyno yn ystod cyfarfod	<p>Cwestiynau:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Pam mae'r Maerdy yn cael ei hystyried yn fwy hygyrch na Phen-rhys? 2. Pam mae'r ALI yn cael gwared ar ddarpariaeth pob oed yn Ysgol 	Cafodd buddsoddiad sylweddol ei wneud i Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy (tua £4 miliwn) er mwyn sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn gwbl hygyrch a chynhwysol sy'n diwallu safon yr 21 ^{ain} Ganrif.

		<p>Gynradd Pen-rhys, ac yn dweud mai sail y penderfyniad yw er mwyn creu darpariaeth pob oed?</p> <p>3. Beth sy'n mynd i ddigwydd i'r plant yn y dosbarth arsylwi blynyddoedd cynnar yn Ysgol Gynradd Parc y Darren pan fydd angen eu lleoli?</p> <p>4. A oes cynlluniau ar gyfer Dosbarthiadau Cynnal Dysgu eraill yn y dyfodol?</p>	<p>Lle'n bosibl, mae'r Awdurdod Lleol yn ceisio creu darpariaeth ysgol pob oed ar gyfer disgyblion mewn Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, er mwyn osgoi cyfnod pontio diangen rhwng un lleoliad ysgol i'r llall er mwyn cael darpariaeth arbenigol, gan ddarparu cyfiawnder â chyfoedion prif ffrwd. Mae yna ddarpariaeth CA2 yn y Maerdy ar hyn o bryd. Byddai adleoli 1 Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Sylfaen o Ben-rhys yn creu darpariaeth ysgol pob oed mewn ysgol lle mae yna hanes llwyddianus o ddarparu darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig effeithiol ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth.</p> <p>Byddai lleoli disgyblion Dosbarth Cynnal Dysgu blynyddoedd cynnar yn Ysgol Gynradd Parc y Darren yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiad o anghenion unigol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar y cynnig sydd wedi'i gynnwys yn y ddogfen ymgynghori 'Adolygiad o Ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn RhCT' yn unig. Mae gan yr Awdurdod</p>
--	--	---	---

		<p>5. Oes modd gweld trawsgrifiad y cyfarfod ymgynghori gyda'r rhieni er mwyn sicrhau ei fod yn gofnod gwir a chywir?</p> <p>6. Fydd modd gweld trawsgrifiad y cyfarfod yma?</p> <p>7. Pryd bydd y gwaith papur yn cael ei drafod gan y Cynghorwyr? Bydd y cyfarfod yma'n un agored, neu oes modd i aelodau'r cyhoedd fod yn bresennol?</p> <p>8. Pam y cafodd plant eu rhwystro rhag mynd i ddsbarthiadau Cynnal Dysgu er mwyn rhoi'r argraff nad oedd angen y dosbarthiadau?</p> <p>9. Yn ystod cyfarfod y cynnig, cafodd ei nodi bod y cynnig dim ond yn effeithio ar un plentyn; fel pe bai'r 1 plentyn ddim yn bwysig. Mae pawb yn gwybod bod hyn yn effeithio ar yr ysgol gyfan, ynghyd â sawl cymuned arall, nid dim ond Pen-rhys oherwydd mae disgyblion yn y dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn dod o ledled Cwm Rhondda.</p>	<p>Lleol gyfrifoldeb i adolygu darpariaeth arbenigol yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn defnyddio'r adnoddau mewn modd effeithiol ac effeithlon er mwyn diwallu anghenion y disgyblion sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig ledled RhCT.</p> <p>Does dim gofyniad i wneud trawsgrifiad o gyfarfodydd ymgynghori. Mae cofnod cryno o'r prif bynciau/meysydd dan sylw yn Atodiad 4.</p> <p>Mae croeso i aelodau'r cyhoedd ddod i eistedd yn y galeri, fodd bynnag, pe hoffai gynrychiolydd siarad mewn cyfarfod yna byddai angen cyflwyno cais ffurfiol yn ysgrifenedig i Swyddfa'r Cabinet 5 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.</p> <p>Mae lleoli disgyblion mewn Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael ei ystyried yn unol â Meini Prawf Lleoli Arbenigol y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod</p>
--	--	--	--

		<p>10. Sut mae modd ichi ddweud bod hyn er lles gorau'r plant, er eu bod nhw'n derbyn y cymorth sydd ei angen arnyn nhw eisoes? Bydd anghenion y plant yma'n amrywio gan fod anghenion cymhleth yn amrywio, sut byddai dosbarth mwy o faint yn cynorthwyo â hyn?</p> <p>11. Beth yw uchafswm nifer y disgyblion yn y dosbarthiadau yn y Maerdy? A oes cynlluniau i ehangu? A oes lle i ehangu?</p> <p>12. Ble bydd plant yn mynd pan fydd dim lleoedd ar ôl? Mae'r penderfyniad yn effeithio ar y plant sy eisoes yn symud drwy'r system, ble maen nhw'n mynd pan fydd y dosbarthiadau'n llawn?</p> <p>13. Ble bydd plant Cwm Rhondda Fawr yn mynd i dderbyn darpariaethau dosbarthiadau cymorth ar gyfer anghenion cymhleth? (Peidiwch ag enwi dosbarthiadau cymorth ymddygiad gan fod y rhain yn fathau gwahanol o ddosbarthiadau cymorth.)</p> <p>14. Sut bydd plant ag anghenion cymhleth yn derbyn cymorth mewn dosbarthiadau prif ffrwd mwy o faint?</p>	<p>modd i unrhyw gynig am newid fod yn gyfnod o bryder ar gyfer disgyblion a'u rhieni. Byddai trafodaethau unigryw'n cael eu cynnal gyda rhieni/disgyblion sy'n cael eu heffeithio pe byddai'r cynig yn mynd rhagddo o ran lleoliadau addysgol yn y dyfodol. Bydd darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar gael o hyd ar gyfer disgyblion yng Nghwm Rhondda.</p> <p>Fydd gorchwyl Dosbarthiadau Cynnal Dysgu cymhleth ddim yn newid. Bydd dosbarthiadau'n dal i gynnwys cymhareb uchel o staff-disgyblion er mwyn rhoi cymorth ag anghenion cymhleth y disgyblion.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol yn cynnal adolygiadau parhaus o'i ddarpariaeth arbenigol er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau er mwyn diwallu anghenion y plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig sylweddol ledled RhCT.</p> <p>Gweler uchod.</p>
--	--	--	--

			Bydd y disgyblion sydd yn diwallu'r meini prawf i'w lleoli mewn Dosbarth Cynnal Dysgu yn cael mynediad at ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu arbenigol.
Anhysbys ac Athro/Athrawes yn Ysgol Gynradd Penrhys	Holiadur	<p>Cynnig 1 -</p> <p>Mae'r gofyniad mynediad Gallu Gwybyddol Gyffredinol ar gyfer dosbarthiadau anghenion cymhleth wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf o 74 i 61. Mae hyn wedi'i wneud yn anoddach i'r disgyblion gael mynediad i le yn y dosbarthiadau yma, er eu bod nhw'n cael anawsterau sylweddol ac yn ei chael yn anodd cael mynediad i'r cwricwlwm mewn dosbarth prif ffrwd. Yr ofn yw y bydd effaith niweidiol ar ddosbarthiadau prif ffrwd os bydd dosbarthiadau anghenion cymhleth yn cau. Gan y byddai disgyblion a oedd gynt mewn dosbarthiadau anghenion cymhleth yn rhan o ddosbarthiadau prif ffrwd heb gymorth ychwanegol, ac felly'n achosi aflonyddwch cyson.</p> <p>Byddai disgwyl i athrawon y dosbarthiadau prif ffrwd godi safonau'r disgyblion prif ffrwd tra hefyd yn cynnig sylw ychwanegol i'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, ac felly'n golygu bod athrawon prif ffrwd dan bwysau ychwanegol.</p> <p>Bydd angen i athrawon prif ffrwd dderbyn hyfforddiant ychwanegol er mwyn cynorthwyo disgyblion sydd ag amrywiaeth o anghenion cymhleth.</p> <p>Yn y trefniadau dosbarth presennol, mae bron pob disgybl ag anghenion cymhleth wedi gwneud cynnydd a chyflawniad da, yn academaidd ac yn gymdeithasol. Yn ogystal â hyn mae mwyafrif y rhieni hefyd wedi nodi</p>	<p>Dydy'r ymgynghoriad ddim yn cynnwys cynnig yn ymwneud â meini prawf lleoliadau arbenigol.</p> <p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p>

	<p>gwelliant yn y cartref.</p> <p>Cynnig 2 -</p> <p>Mae symud y Cyfnod Sylfaen i Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy yn llai hygyrch i nifer o ddisgyblion yng Nghwm Rhondda nag yw Ysgol Gynradd Pen-rhys.</p> <p>Mae'r amseroedd sydd wedi'u nodi isod yn deillio o'r "AA Route Planner":</p> <p>Mae taith o Flaenrhondda i Ben-rhys yn cymryd 17 munud, i gyrraedd y Maerdy bydd y daith yn cymryd 28 munud.</p> <p>Mae taith o Dreorci i Ben-rhys yn cymryd 8 munud, i'r Maerdy mae'n cymryd 19 munud.</p> <p>Mae pob taith yn sylweddol hirach o'i chymharu â'r daith i Ysgol Gynradd Pen-rhys. Dydy'r amseroedd yma ddim yn ystyried unrhyw draffig sy'n teithio trwy Lynrhedynog yn ystod cyfnodau brig, ac felly'n golygu bydd teithiau'n hirach eto.</p> <p>Mae'r cynnig yn awgrymu cymryd darpariaeth o ysgol sy'n fwy hygyrch a rhoi darpariaeth ysgol pob oed yn y Maerdy, sy'n llai hygyrch.</p> <p>Bydd cysylltiadau pontio/datblygu gyda'r dosbarth CA3 yn anodd iawn o ganlyniad i'r pellter gan fod cynnig arfaethedig i leoli'r ddarpariaeth CA3 yn Ysgol Gyfun Treorci.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>O ran pellter/amser teithio, maen nhw'n dod o fewn paramedrau sydd wedi'u nodi yn y Polisi Teithio i Ddysgwyr.</p>
--	--	--

		<p>Cynnig 3 -</p> <p>Mae yna angen pendant am uned arsylwi yn y Cyfnod Sylfaen i sicrhau bod disgyblion yn cael eu lleoli'n gywir, fodd bynnag, o dan y trefniadau arfaethedig, os yw disgyblion yn cael diagnosis o angen penodol, fydd lleoliad addas ar gael ar eu cyfer er mwyn diwallu'r anghenion mewn modd priodol?</p> <p>Os na fydd lleoliad ar gael o dan y trefniadau arfaethedig, fydd y plant yn cael eu cadw yn yr uned arsylwi amhriodol?</p> <p>Cynnig 4 -</p> <p>Mae'n hen bryd bod darpariaeth ychwanegol ar gyfer CA3, fodd bynnag, mae pellter y ddarpariaeth ysgol pob oed yn bryder. Os bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleoli yn Ysgol Gynradd y Maerdy, bydd y pellter teithio'n anodd ar gyfer y cyfnod pontio.</p>	<p>Mae Ysgol Gynradd Gymuned y Maerdy yn lleoliad ysgol yr 21^{ain} Ganrif sy'n gwbl hygyrch.</p> <p>Mae dosbarth CA3/4 ar gyfer anghenion cymhleth yng Nglynrhedynog, mae cynnig hefyd i agor dosbarth CA3/4 yn Nhreorci. Bydd y dosbarth CA2 sydd wedi'i hen sefydlu yn rhoi cynlluniau pontio cadarn yn eu lle ar gyfer disgyblion sy'n trosglwyddo i'r naill leoliad. Fydd pellter ddim yn effeithio ar yr uchod.</p> <p>Bydd lleoli'n cael ei nodi a'i weithredu fel sy'n briodol yn ôl anghenion y disgyblion.</p> <p>Mae barn yr ymatebwyr wedi'i nodi. Bydd</p>
--	--	---	---

			pellter ddim yn rhwystyr i weithredu trefniadau pontio cadarn ar gyfer disgyblion.
Tad-cu i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	Mae'n lleihau'r ysgol. Mae'n ysgol draddodiadol ar gyfer plant ag anghenion dysgu ac anableddau.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
Gwirfoddolwr yn Eglwys Pen-rhys a Chyfaill i Gymuned Pen-rhys	Holiadur	Effeithio ar blant â phob math o ymddygiad. Dydy plant ddim yn hoffi newid. Dydy teithio o ardaloedd gwahanol ddim yn dda i unrhyw blentyn. Cael effaith ar y plant drwy fynd i ysgol arall, a dydy'r pellter ddim yn dda. Calon Pen-rhys.	Gweler y crynodeb o'r materion allweddol.
Cyfaill Gwirfoddol i Gymuned Pen-rhys	Holiadur	Bydd anghenion y plant yma'n cael eu diwallu'n well mewn uned lai o faint. Byddai plant sy'n agored i niwed yn cael eu gorlethu gan leoliad mwy prysur. Mae Pen-rhys yn lleoliad canolog yng Nghwm Rhondda, byddai'r Maerdy yn golygu taith hir iawn ar gyfer y mwyafrif o'r disgyblion. Fydd Ysgol Gynradd Pen-rhys yn cau o ganlyniad i hyn?	Byddai capasiti'r dosbarth yr un peth pe bai'n cael ei hadleoli i'r Maerdy. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rheolwr cymdogaeth Pen-rhys	Holiadur	Roedd y dosbarthiadau'n rhan annatod o helpu fy nith i oresgyn ei phroblemau lleferydd, a bellach mae hi'n gallu siarad 2 iaith. Ar hyn o bryd, mae'r dosbarthiadau yng nghanol y cwm, byddai symud y	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion

		dosbarthiadau'n achosi trafferthion mawr.	Allweddol.
Ewythr i ddisgyblion sydd wedi buddio o Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	Mae nifer o blant ag anawsterau dysgu, ac mae hyn yn fwy amlwg yn yr oes fodern. Mae Pen-rhys yn lleoliad canolog... mae angen rhagor o ddosbarthiadau. Mae'n fwy cost effeithiol i gadw'r dosbarthiadau. Dydy teithio ar draws y cwm ynghyd â'r costau cynyddol i danwydd ddim yn gost effeithiol. Mae angen rhagor o ddosbarthiadau.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Mae'r Awdurdod Lleol yn adolygu ei ddarpariaeth arbenigol yn barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud defnydd effeithiol ac effeithlon o'i adnoddau er mwyn diwallu anghenion y plant sydd ag Anghenion Addysgol Arbennig sylweddol ledled RhCT.
Dienw	Holiadur	Ddim yn ymarferol ar gyfer plant na theuluoedd. Byddai teithio ac adleoli yn achosi gofid i bawb dan sylw.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Aelod o Gymuned Pen-rhys	Holiadur	Mae'n bwysig cadw plant ag anghenion arbennig ochr yn ochr â phlant y brif ffrwd ar gyfer dysgu, cymysgu a chymdeithasu. Pellter teithio, mae Pen-rhys yn ganolog i'r naill Gwm.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Dienw	Holiadur	Aeth fy mhlant yno, ac roedden nhw wedi dysgu a gwneud sawl ffrind. Rhy bell i ffwrdd	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant	Holiadur	Cafodd fy meibion eu dysgu yn yr uned, ac roedd o gymorth enfawr. Mae teithio'n ormod ar gyfer plant ag anghenion.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Aelod o gymuned Pen-rhys	Holiadur	Caiff yr holl blant eu cadw gyda'i gilydd. Mae Pen-rhys yn ganolog, ac mae llai o amser teithio.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

Rhiant a Chyn-ddisgybl	Holiadur	Gwybod pwysigrwydd plant ag anghenion addysgol arbennig a'r modd y maen nhw'n rhyngweithio ag eraill. Bydd yn tarfu ar addysg y plant, ac ofn y bydd yn arwain at ysgol ardderchog yn cau.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Cyfaill y Gymuned	Holiadur	Cryn dipyn o ddisgyblion ag anawsterau dysgu a Phen-rhys yw'r lleoliad mwyaf canolog i bawb. Byddai cost cludiant yn drech na'r costau i gadw'r dosbarthiadau ar agor.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Dydy'r adborth o Uned Trafnidiaeth Integredig ddim yn awgrymu y byddai'r cynigion sy'n gysylltiedig â Phen-rhys yn achosi unrhyw gostau ychwanegol sylweddol o ran trafndiaeth.
Gwirfoddolwr a Chyfaill i Gymuned Pen-rhys	Holiadur	Dydy anghenion plant sy'n agored i niwed ddim yn cael eu diwallu bob tro mewn dosbarthiadau mwy o faint, sy'n gallu achosi straen mawr ar gyfer y plant a'u teuluoedd. Mae modd i leoliadau ysgol llai fynd i'r afael â'u hanghenion yn fwy effeithiol. Mae gan yr amser fydd yn cael ei dreulio'n teithio i ysgolion pell ei anfanteision, yn enwedig ar gyfer plant ag anabledau corfforol. Os bydd y Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn cau, gall arwain at yr ysgol yn cau.	Bydd capasiti'r dosbarth yn aros yr un peth yn Ysgol Gymuned y Maerdy. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	Mae plant yn defnyddio'r dosbarth, ac mae angen y dosbarth arnyn nhw. Dydw i ddim yn meddwl y dylai plant cael eu symud o amgylchedd cyfarwydd oherwydd gall effeithio ar ddysgu ac iechyd meddwl.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Modryb i blentyn sydd yn	Holiadur	Mae gan bawb yr hawl i fynychu'r un ysgol. Mae llai o leoedd ar gyfer Dosbarth Cynnal Dysgu yn y Maerdy, ac mae'n	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

Ysgol Gynradd Pen-rhys		<p>rhy bell i rai i deithio.</p> <p>Rwy'n credu dylai pob plentyn gael ei drin yn yr un modd, hyd yn oed plant y Dosbarth Cynnal Dysgu.</p>	Byddai capasiti'r dosbarth yn aros yr un peth yn Ysgol Gymuned y Maerdy.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae darpariaeth y Dosbarth Cynnal Dysgu eisoes wedi bod yn rhan bwysig ac annatod o Ysgol Gynradd Pen-rhys.</p> <p>Mae lle i 18 disgybl ym Mhen-rhys, ond dim ond lle i 10 disgybl sydd yn y Maerdy.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Bydd capasiti'r Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n rhan o'r cynnig i adleoli i Ysgol Gymuned y Maerdy yn aros yr un peth os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.</p>
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Bydd yn achosi gormod o bryder i'r plant i deithio mor bell.</p> <p>Mae gan Ysgol Gynradd Pen-rhys fodd i hwyluso 18+ disgybl, ond dim ond lle i 10 sydd yn y Maerdy. Mae Ysgol Gynradd Pen-rhys yn ganolog i'r Cwm.</p>	<p>Bydd capasiti'r Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n rhan o'r cynnig i adleoli i Ysgol Gymuned y Maerdy yn aros yr un peth os bydd y cynnig yn mynd rhagddo.</p> <p>Ar hyn o bryd mae lleoedd dros ben yn y ddau Ddosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Sylfaen yn Ysgol Gynradd Pen-rhys. Nod y cynnig yw ailgyfeirio adnoddau er mwyn mynd i'r afael â meysydd angen eraill sydd wedi'u nodi ar gyfer darpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ledled RhCT.</p>
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Bydd fy mhientyn yn cael ei hatal o ran ei chyfnod datblygu o ganlyniad i'w hanghenion cymhleth.</p> <p>Byddai anghenion fy merch yn golygu byddai hi ddim yn teithio o Ben-rhys i'r Maerdy.</p>	<p>Does dim tystiolaeth sy'n awgrymu y byddai pontio i leoliad arall yn effeithio ar ddatblygiad y disgyblion.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

Mam-gu/Tad-cu i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae angen y dosbarth yma ar y plant gan fod y plant i gyd yn wahanol, a bod angen cymorth ychwanegol ar rai.</p> <p>Ddylen nhw ddim gorfod teithio pan mae Dosbarth Cynnal Dysgu perffaith yn ein hysgol ein hunain.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae angen y lleoliad yma ar blant sydd ag anawsterau dysgu.</p> <p>Mae'n rhy bell i blant ifainc i deithio pan mae yna ysgol sy'n ddigon da ar y safle.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Yn ôl y cynnig, byddai capasiti'r Dosbarth Cynnal Dysgu sydd i'w adleoli i Ysgol Gymuned y Maerdy yn aros yr un peth pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.</p>
Rhiant i ddisgybl yn ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae angen codi'r sgôr Gallu Cyffredinol, yna bydd y dosbarth yn llawn.</p> <p>Mae traws gyfnod yn bodoli eisoes, dw i'n meddwl y byddai'r teithio yn annerbyniol.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae angen y dosbarth yma ar blant os ydyn nhw'n ei chael yn anodd yn y dosbarthiadau prif ffrwd.</p> <p>Dydw i ddim yn meddwl y dylai plant ifainc deithio mor bell er mwyn diwallu eu hanghenion.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Llywodraethwr	Holiadur	<p>Dylai lles y plant ddod yn gyntaf. Mae'r plant eisoes wedi setlo, felly does dim angen eu haflonyddu.</p> <p>Trawmatig iawn i'r plant os ydyn nhw'n cael eu hadleoli.</p> <p>Mae Ysgol Gynradd Pen-rhys wedi rhagori mewn gofalu am blant y Dosbarth Cynnal Dysgu, a'u haddysgu.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i	Holiadur	Ysgol fach yw Ysgol Gynradd Pen-rhys, ac mae gan yr athrawon a'r	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.

ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys		disgyblion berthnasau agos sy'n werthfawr iawn ar gyfer plant ag anawsterau dysgu. Mae Ysgol Gymuned y Maerdy hefyd yn bell iawn o Ysgol Gynradd Pen-rhys.	
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	Mae cau'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn druenus. Bydd angen i blant deithio ymhellach ac am gyfnodau hirach. Byddai hyn hefyd yn achosi rhagor o draffig; rhywbeth y mae'r Cyngor yn ceisio'i osgoi. Bydd y penderfyniad yn rhoi pwysau ar ysgolion eraill, a bydd plant yn cael eu colli yn y system. Mae angen i blant ddod i'r arfer ag ysgol arall a dosbarthiadau mwy o faint.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Mam-gu/Tad-cu i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys.	Holiadur	Dydw i ddim o'r farn bod colli dosbarth arall er lles gorau'r plant. Dydw i ddim yn meddwl y dylai plant gael eu trin fel defaid a mynd i ysgol arall.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
	Holiadur	Mae dosbarth hir sefydledig gydag athrawon profiadol. Mae Ysgol Gynradd Pen-rhys mewn lleoliad delfrydol rhwng y ddau gwm, lle mae Ysgol Gymuned y Maerdy wedi'i lleoli ar ben Cwm Rhondda Fach, sy'n bellter hir i deithio ar gyfer plant sy'n agored i niwed.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	Yr ysgol gorau yng Nghwm Rhondda gydag athrawon gofalgwr a Phennaeth cefnogol. Dyma'r unig ysgol lle mae fy mhlant wedi teimlo'n gyfforddus ac wedi derbyn cymorth. Mae angen yr uned yn y gymuned, ac ni ddylid ei adleoli. Ni ddylai pethau gael eu newid.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Y cynnig yw adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu er mwyn creu darpariaeth pob oed yn Ysgol Gynradd y Maerdy. Roedd y lleoliad wedi derbyn adborth cadarnhaol yn ystod yr archwiliad diwethaf gan Estyn. Rhaid nodi bod Archwiliad Estyn o Ysgol Gynradd Pen-rhys yn 2017 wedi

			nodi bod 3 allan o'r 5 maes archwilio wedi'u hystyried yn 'ddigonol' a bod angen gwelliant.
Disgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Peth drwg yw cau'r ysgol oherwydd ariannu.</p> <p>Mae'n gweithio'n dda yn ei lleoliad presennol.</p> <p>Byddwch chi'n cau ysgol dda.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Dylai pawb fod â'r dewis i fynychu ysgol sydd â chyfleuster.</p> <p>Mae modd i Ysgol gymuned y Maerdy gynnig hyn a hyn o leoedd ar gyfer y cyfleuster, ond mae modd i Ysgol Gynradd Pen-rhys gynnig rhagor o leoedd.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
Mam-gu/Tad-cu i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae'r Dosbarth Cynnal Dysgu wedi darparu gwych. Mae wedi'i lleoli mewn man delfrydol ar gyfer naill ochr y cwm felly does dim angen i blant deithio mor bell.</p> <p>Mae gan Ysgol Gymuned y Maerdy uned sy'n llai o faint, felly does dim cymaint o blant ag sydd yn Ysgol Gynradd Pen-rhys.</p> <p>Cytuno â Chynnig 3:</p> <p>Cyn gynted ag y bydd problemau yn cael eu nodi ymhlith plant oed 'cyn-ysgol', y gorau bydd y cymorth sydd yn ei lle pan fyddan nhw'n cyrraedd oedran ysgol gorfodol.</p> <p>Mae Pen-rhys wedi darparu cymorth gwych ar gyfer plant y Dosbarth Cynnal Dysgu ers blynnyddoedd, mae gan y staff perthynas agos gyda'r plant er mwyn diwallu'r anghenion unigol.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

Cymuned Pen-rhys	Holiadur x30	Anghytuno â'r cynigion	Nodwyd y canlynol:
Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Cynnig 1</p> <p>Mae gofynion Gallu Gwybyddol Gyffredinol wedi'u gostwng (o 74 i 61) sy'n ei wneud yn anoddach i ddisgyblion gael lleoedd yn y dosbarthiadau yma. Byddai plant sy'n ei chael hi'n anodd mewn dosbarth prif ffrwd, ac sy'n tangyflawni, yn elwa'n fawr o gael mynediad at ddarpariaeth o'r fath.</p> <p>Byddai cau dosbarthiadau'n golygu bod rhaid i ddisgyblion fynychu dosbarthiadau prif ffrwd heb gymorth ychwanegol, gan achosi aflonyddwch a chael effaith niweidiol ar ddisgyblion eraill yn y dosbarth.</p> <p>Bydd athrawon y dosbarthiadau prif ffrwd o dan ragor o bwysau.</p> <p>Bydd angen hyfforddiant ychwanegol ar athrawon prif ffrwd.</p> <p>Bydd disgyblion ag anawsterau dysgu sylweddol yn ei chael hi'n anoddach i weithio a gwneud cynnydd.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae disgyblion sydd ag anghenion cymhleth yn cyflawni'n dda o dan y trefniadau dosbarth presennol, yn academiaidd ac yn gymdeithasol.</p> <p>Cynnig 2-</p> <p>Mae symud y dosbarth o Ysgol Gynradd Pen-rhys i Ysgol Gymuned y Maerdy yn ei wneud yn llai hygyrch ar gyfer nifer o ddisgyblion Cwm Rhondda.</p> <p>Dylai'r daith fod yn rhesymol.</p> <p>Tynnu darpariaeth pob oedran o'r ysgol hygyrch.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

		<p>Darpariaeth CA3 yn Ysgol Gyfun Treorci - byddai'n gwneud cysylltiadau pontio â'r dosbarth CA3 yn anodd iawn oherwydd y pellter.</p> <p>Cynnig 3</p> <p>Mae angen pendant ar gyfer uned arsylwi yn y Cyfnod Sylfaen. A fydd lleoliadau addas?</p> <p>Cynnig 4</p> <p>Mae angen pendant am ddarpariaeth ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 3....pryder oherwydd pellter.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Bydd lleoli'n cael ei nodi a'i weithredu fel sy'n briodol yn ôl anghenion y disgyblion.</p> <p>Fydd pellter ddim yn rhwystr i weithredu trefniadau pontio cadarn ar gyfer disgyblion.</p>
<p>Cyflwynodd Ysgol Gynradd Pen-rhys lythyr gyda'r un cynnwys yn union gan sawl unigolyn (x76)</p>	<p>Llythyr</p>	<p>Bodddhad rhieni gydag ansawdd yr addysgu , gofal a chanlyniadau ar gyfer disgyblion yn y dosbarthiadau Cynnal Dysgu.</p> <p>Effaith andwyol y polisi o 'ynysu'r' ystyriaeth ynghylch darpariaeth y Dosbarth Cynnal Dysgu o'r effaith ar yr ysgol gyfan a'i dyfodol.</p> <p>Mae gwahanu disgyblion, sy'n aml yn agored i niwed, o'u ffrindiau, cyfoedion a'u brodyr/chwiorydd mewn rhai achosion yn codi pryderon go iawn ymhlith teuluoedd.</p> <p>Pryder sylweddol am ddisgyblion sy'n agored i niwed yn mynychu ysgol sy'n fwy o faint gyda dosbarthiadau a allai fod yn fwy.</p> <p>Pellter ac amser yn ymwneud â disgyblion yn i'r ysgol ac yn ôl; mae'r effaith ar hyd y diwrnod ysgol yn achosi pryder. Mae Ysgol Gynradd Pen-rhys yn fwy hygyrch o lawer ar gyfer Cwm Rhondda Fawr nag Ysgol Gymuned y Maerdy.</p> <p>Bydd gan rai rhieni neu warcheidwaid blant oedran cynradd mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac mewn dosbarthiadau Cynnal Dysgu, ac felly mewn ysgolion gwahanol.</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

		<p>Mae cymuned Pen-rhys yn pryderu'n sylweddol oherwydd naws yr adroddiad cyfan a'r effeithiau cysylltiedig, sy'n ymddangos yn anochel, o gau Ysgol Gynradd Pen-rhys o ganlyniad i dargedu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.</p> <p>Effaith isafol y cynigion, dim ond un disgybl fydd yn cael ei effeithio. Y pryder yw bod hyn yn cynrychioli'r sefyllfa gyfredol yn unig, a dydy'r cynigion ddim yn cynnwys yr angen am ddarpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer rhagor o blant yn y dyfodol.</p> <p>Dydy Asesiad Effaith ar y Gymuned ddim wedi'i ystyried yn ddymunol...effaith y cynigion....ar yr ysgol o fewn amgylchedd Pentref Pen-rhys.</p>	<p>Dydy hyn ddim yn anarferol ar gyfer rhieni i ddisgyblion yn unrhyw un o Ddosbarthiadau Cynnal Dysgu yr Awdurdod Lleol ledled RhCT.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Pen-rhys	Holiadur	<p>Mae'r dosbarthiadau yma'n helpu plant gydag anghenion dysgu cymhleth. Ers i'm plentyn fynychu'r dosbarth yma mae e wedi gwneud cynydd da iawn ac mae'r athrawon yn llwyddo gyda'r plant yma sydd ag anghenion cymhleth.</p> <p>Dyma'r ail waith i hyn ddigwydd i fy mab, a dydy e ddim yn deg iddo symud i ysgol newydd eto gan ei fod yn peri gofid iddo gan nad yw e'n hoffi newid.</p> <p>Mae angen y dosbarthiadau yma ar blant ag anghenion cymhleth i gael cymorth, dydy e ddim yn deg eich bod chi'n bwriadu cymryd y dosbarthiadau oddi wrthyn nhw.</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.
Athro/Athrawes yn Ysgol	Holiadur	<p>Cynnig 1</p> <p>Mae gofynion Gallu Gwybyddol Gyffredinol wedi'u gostwng (o 74 i 61)</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion</p>

		lleoliadau addas? Cynnig 4 Mae angen pendant am ddarpariaeth ychwanegol yng Nghyfnod Allweddol 3....pryder oherwydd pellter.	Fydd pellter ddim yn rhwystro i weithredu trefniadau pontio cadarn ar gyfer disgyblion.
Dienw	Holiadur	Mae'r ysgol eisoes wedi cynnig y cyfleuster yma, a dylai barhau i wneud hynny.	Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.
<p>Themâu allweddol o ymatebion ymgynghori Ysgol gynradd Pen-rhys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Amser pellter / teithio i ddisgyblion sy'n cael eu hadleoli 2. Effaith ar ddisgyblion 3. Dosbarthiadau Cynnal Dysgu'n cael eu cynnal gan leoliadau prif ffrwd llai o faint ar hyn o bryd 4. Trosglwyddo disgyblion presennol y Dosbarth Cynnal Dysgu i leoliadau Dosbarth Cynnal Dysgu newydd 5. Ail-leoli staff a newidiadau o ran telerau ac amodau cyflogaeth 6. Disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig yn cael eu cynnwys o fewn lleoliad prif ffrwd 7. Meini Prawf ar gyfer lleoli arbenigol 8. Cau lleoliad prif ffrwd 9. Rhesymeg dros newid 10. Colli darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu o'r ysgol bresennol a cholli staff addysgu 11. Trafodaethau am ddarpariaeth disgyblion unigol 12. Diwallu Anghenion Addysgol Arbennig/Anghenion Dysgu Ychwanegol disgyblion y Dosbarth Cynnal Dysgu yn y darpariaethau newydd 13. Cynnig i newidiadau i gapasiti at gyfer Dosbarthiadau Cynnal Dysgu i adleoli Ysgol Gymuned y Maerdy ac Ysgol Gymuned y Porth 14. Lleihau cyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol 			

3. Cynigion Ysgol Gynradd Caradog			
Dyma'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gau/adleoli'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Caradog			
Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig			
Ymatebwr	Math o ymateb i'r ymgynghoriad	Sylwadau / Pwyntiau wedi'u codi / Gwybodaeth Ychwanegol gan yr ymatebwr	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Mam-gu/Tad-cu i blentyn sy'n mynychu Ysgol Gynradd Caradog	Holiadur	Dydy plant fel xxx ddim yn hoffi newid. Mae'n holi o hyd pam y mae rhaid iddo newid i ysgol arall.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol. Mae'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Caradog wedi'u lleoli mewn adeilad Fictoraidd sydd ddim yn hygyrch ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol/anableddau.
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Caradog	Holiadur	Mae Ysgol Gynradd Caradog yn ysgol wych sydd â gyda mynediad a chyfleusterau cyflawn drwy'r adeilad yn bwrpasol ar gyfer fy merch X yn y Dosbarth Cynnal Dysgu. Mae'r staff yn brofiadol iawn ac yn gymwynasgar iawn. Mae gan Ysgol Gynradd Caradog cyfleusterau i ddarparu ar gyfer y babanod a'r plant iau. Mae ganddyn nhw bopeth yn Ysgol Gynradd Caradog ar gyfer trosglwyddiad llyfn.	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

		Cafodd wybodaeth benodol ynghylch XX ei chyflwyno	
Themâu allweddol o ymatebion yr ymgynghoriad ynghylch Ysgol Gynradd Caradog:			
1. Trafodaeth am ddarpariaeth disgyblion unigol 2. Rhesymeg dros newid			

4. Cynigion Ysgol Gynradd Parc y Darren			
Dyma'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i ail-ddynodi'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Parc y Darren.			
Roedd yr ymatebwr yn anghytuno â'r cynnig			
Ymatebwr	Math o ymateb i'r ymgynghoriad	Sylwadau / Pwyntiau wedi'u codi / Gwybodaeth Ychwanegol gan yr ymatebwr	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Ynghylch Ysgol Gynradd Parc y Darren	E-bost	Yn gyntaf, hoffwn i wneud sylw ar faint o jargon defnyddioch chi yn eich llythyr. Dw i'n teimlo bod yr iaith sydd wedi'i defnyddio'n anhygyrch ar y cyfan i bobl gyffredin. Mae hyn yn annheg, ac mae'n ymddangos mae eich bwriad chi yw ceisio peri pobl i beidio â chymryd rhan; mynychwyr posibl i'r sesiwn galw heibio uchod.	Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod eich sylw ynghylch y jargon yn y llythyr, a byddwn ni yn adolygu'r cynnwys yn sgil eich pryderon. Doedd dim bwriad i hyn atal pobl rhag dod i'r sesiwn gan fod yr Awdurdod Lleol yn croesawu ac annog pob rhanddeiliad i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

		<p>Ydw i'n gywir wrth feddwl eich bod chi yn ceisio cael gwared ar y dosbarth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o blaid prif-ffrydio'r disgyblion sydd ag anghenion dysgu / Cynnal Dysgu ychwanegol?</p> <p>A yw'r lleoedd dros ben yma'n ganlyniad uniongyrchol i uno ac, yn dilyn hynny, cau'r ysgol ar North Road?</p> <p>Os ydw i'n anghywir o ran fy nealltwriaeth, ydych chi'n cynnig torri'r ddarpariaeth Cynnal Dysgu sydd eisoes ar gael i'r disgyblion mewn angen yn Ysgol Gynradd Parc y Darren?</p> <p>A allech chi hefyd amlinellu manteision cynhwysiant prif ffrwd ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion Cynnal Dysgu?</p>	<p>Na, sail y cynnig yw ail-ddynodi neu newid swyddogaeth y Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Parc y Darren i fod yn Ddosbarth Asesu ac Ymyrraeth y Blynnyddoedd Cynnar ar gyfer disgyblion o oedran meithrin sydd ag anawsterau dysgu cymhleth sylweddol.</p> <p>Na, nod y cynnig yw mynd i'r afael a'r angen i ddarparu ymyrraeth gynnar arbenigol ar gyfer disgyblion o oedran meithrin sydd ag anghenion dysgu cymhleth sylweddol.</p> <p>Dydy'r ymgynghoriad ddim yn cynnwys cynnig i leihau'r ddarpariaeth Cynnal Dysgu i ddisgyblion mewn angen yn Ysgol Gynradd Parc y Darren.</p> <p>Dydy'r cwestiwn yma ddim yn berthnasol i'r ymgynghoriad Dosbarthiadau Cynnal Dysgu.</p> <p>I blant sydd wedi cael eu hasesu fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sylweddol o enedigaeth ac ymlaen, mae</p>
--	--	--	--

		<p>Sut oes modd cymryd ymagwedd ataliol at ddisgyblion ysgol gynradd lle mae nifer o'r anghenion dysgu ychwanegol ddim yn cael eu nodi tan fod y plant o oedran ysgol iau?</p> <p>Beth yw'r anghydbwysedd presennol rhwng darpariaethau cynradd ac uwchradd?</p>	<p>prosesau asesu cydnabyddedig a strategaethau ymyrryd / ymagweddau addysgol penodol sy'n effeithiol wrth ddarparu ymyrraeth ac ymagweddau ataliol cynnar ar gyfer disgyblion ag ADY mewn ysgolion arbennig a phrif ffrwd.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion i agor Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Dysgu Cymhleth yn Ysgol Gyfun Treorci, a Dosbarth Cynnal Dysgu Cyfnod Allweddol 3/4 ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn Ysgol Nant Gwyn. Nod y cynnig yw gwella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu uwchradd yn unol â chanlyniad dadansoddiad o anghenion disgyblion.</p>
<p>Themâu allweddol o'r ymatebion i ymgynghoriad Ysgol Gynradd Parc y Darren</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Effaith ar ddisgyblion 2. Meini Prawf ar gyfer lleoli arbenigol 3. Rhesymeg dros newid 4. Trafodaeth am ddarpariaeth disgyblion unigol 			

5. Cynigion Ysgol Gynradd Heol y Celyn

Dyma'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i gau'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Roedd yr ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig

Ymatebwr	Math o ymateb i'r ymgynghoriad	Sylwadau / Pwyntiau wedi'u codi / Gwybodaeth Ychwanegol gan yr ymatebwr	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Rhiant i ddisgybl yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn	E-bost	<p>Fel y gallwch chi werthfawrogi, dydw i ddim yn dymuno ei symud o Ysgol Gynradd Heol y Celyn. Hoffwn i iddo aros yn Heol y Celyn nes iddo fynd i'r ysgol uwchradd gyda'i ffrindiau.</p> <p>Dw i wedi profi pa mor niweidiol y gall fod i drosglwyddo i ysgol arall.</p> <p>Mae e'n ddisgybl â datganiad, a dw i hefyd ddim eisiau iddo fynd i mewn i'r brif ffrwd a'i fod yn mynd ar goll yn y system ac yn cael ei anghofio.</p> <p>Dw i wedi gweld dosbarth arall yn cau, a'ch bwriad gwirioneddol yw paratoi i drosglwyddo'r ysgol i'r</p> <p>Rwy'n deall bod dod o hyd i arian yn anodd, fodd bynnag os ydych chi'n torri ychydig bach o bob ysgol, yn hytrach na chael gwared ar y dosbarthiadau Cynnal Dysgu i blant anabl, efallai y byddwch chi'n dod o hyd i'r un swm o arian, neu hyd yn oed mwy.</p> <p>Rwy'n gofyn eich bod chi yn cadw'r Dosbarth Cynnal Dysgu yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn ar agor oherwydd mae'n angen sylfaenol i'r holl</p>	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

		<p>blant anabl sydd ynddo.</p> <p>Felly byddai eu llusgo allan a'u lleoli mewn ysgol arall yn niweidiol i'w hiechyd a'u cyflwr meddyliol, a hynny oll heb ystyried yr amserlen fer rydych chi'n bwriadu cyflawni hyn.</p>	
--	--	---	--

Themâu allweddol o'r ymatebion i'r ymgynghoriad Ysgol Gynradd Heol y Celyn:

1. Trafodaethau am ddarpariaeth disgyblion unigol
2. Lleihau cyllid ar gyfer darpariaeth arbenigol
3. Effaith ar ddisgyblion
4. Trosglwyddo disgyblion presennol y Dosbarth Cynnal Dysgu i leoliad newydd

6. Ymatebion Cyffredinol i'r Ymgynghoriad

Dyma'r sylwadau a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad ynghylch y cynnig i aildrefnu darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu yn RhCT.

Ymatebwr	Math o ymateb i'r ymgynghoriad	Sylwadau / Pwyntiau wedi'u codi / Gwybodaeth Ychwanegol gan yr ymatebwr	Ymateb yr Awdurdod Lleol
Cynrychiolydd Undeb Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb	E-bost	Ar ôl siarad â rhanddeiliaid yn y lleoliadau Ysgolion Cynradd a allai gael eu heffeithio gan y cynnigion i gau ac adleoli'r Dosbarth Cynnal Dysgu, mae pryder ynghylch symudedd disgyblion, y cymorth gostyngol i ddisgyblion ag Anghenion Addysgol Arbennig mewn cymunedau lleol a	Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.

<p>yr Athrawesau Cymru</p>	<p>thynnu cymorth arbenigol i ddisgyblion ag Anableddau Dysgu Cymhleth Yn achos Ysgol Gynradd Pen-rhys ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn, mae pryderon ynghylch y dewisiadau sydd gan ddisgyblion a rhieni o ran parhau i gael cymorth arbenigol, hanfodol heb fod angen i'r disgybl deithio'n bell i fanteisio arno.</p> <p>Fel rhan o'r ymgynghoriad, hoffem ni weld data manwl yn ymwneud â rhifau a dosbarthiad lleol y disgyblion sy'n gymwys i gael mynediad i'r Dosbarth Cynnal Dysgu, ac os yw'r cynigion yn cael eu caniatáu yn eu ffurf bresennol lleoliadau'r Dosbarth Cynnal Dysgu sy'n gallu diwallu eu hanghenion orau.</p> <p>Yn adroddiad 2014, a welodd newidiadau sylweddol i'r ddarpariaeth AAA fel model cam cyntaf – <i>roedd nifer o ddatganiadau wedi'u cynnwys yn yr e-bost</i></p> <p>Mae staff y Dosbarth Cynnal Dysgu yn teimlo bod y dadleuon 'sy'n canolbwyntio ar y disgyblion' yma mor ddilys nawr ag oedden nhw yn 2014? Er ein bod yn ymwybodol o'r manteision ariannol sy'n gysylltiedig â'r cynigion diweddar (Rwy'n nodi bod RhCT yn gwario tua £3.1 miliwn bob blwyddyn ar ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu, ac ar hyn o bryd mae oddeutu 330 o ddisgyblion yn cael mynediad at y 46 o ddarpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu yn RhCT), mae angen diwallu anghenion disgyblion unigol yn eu cymunedau lleol o hyd.</p> <p>Bu datgeliad yn ymwneud â'r gostyngiad gwirioneddol yn nifer y disgyblion yn y lleoliadau Dosbarth Cynnal Dysgu, er enghraifft yn Ysgol Gynradd Pen-rhys ac Ysgol Gynradd Heol y Celyn, ond mae materion wedi codi hefyd ynghylch a yw newidiadau i'r Gallu Gwybyddol Gyffredinol wedi cyfrannu at hyn. Awgrymir bod yr addasiadau Gallu Gwybyddol Gyffredinol yn ymwneud â sgorau a meini prawf mynediad ac ymadael wedi annog rhieni a chynhalwyr i beidio â chael mynediad i'r</p>	<p>Nodwyd y canlynol:</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>
--------------------------------	---	--

		<p>ddarpariaeth yn y lleoliadau presennol.</p> <p>Mae'r Gymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau Cymru yn disgwyl i'r Awdurdod Lleol ymateb i hyn, a chyhoeddi meini prawf a data sgorio sy'n adlewyrchu tueddiadau dros amser.</p> <p>Mae'n debyg y bydd y newidiadau a gynigir yn effeithio ar staff addysgu a chymorth presennol.</p> <p>Gofynnir am eglurder ynghylch effaith a chyflawniad y dosbarthiadau Cynnal Dysgu. Nodaf fod dogfennaeth y cynnig yn cyfeirio at gyflawniad yr ysgol gyfan ('cyflawniad presennol yr ysgol' a 'rhagolygon ar gyfer gwella'), ond mae yna bryderon bod sylwadau a chanlyniadau cadarnhaol sydd wedi'u priodoli i'r ddarpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu mewn rhai lleoliadau ddim wedi cael eu datgelu.</p>	
NEU RhCT	E-bost	<p>Egwyddorion Cyffredinol</p> <p>Ar un adeg, cafodd ei ddweud fod dim angen i ddisgyblion RhCT i fod â datganiad gan fod nifer eang o ddarpariaethau ar gael ar draws y sir yn cwrdd â'u hanghenion.</p> <p>Dydy cau dosbarthiadau a thynhau meini prawf ar gyfer mynediad i ddosbarthiadau ddim yn ymddangos i wneud llawer i gefnogi'r syniad yma ar gyfer dyfodol.</p> <p>Mae cau dosbarthiadau yn lleihau'r cyfle i ddisgyblion dderbyn y gefnogaeth wedi'i deilwra mewn lleoliadau bach sydd eu hangen arnynt.</p> <p>Ail-ddynodi dosbarthiadau ym Mharc y Darren / Llantrisant</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p>

		<p>Mae'n ymddangos yn hollol resymol a synhwyrol.</p> <p>efallai y bydd mwy o angen am ragor o ddsbarthiadau o'r math hwn gan fod y disgyblion cynharach yn derbyn cymorth priodol y mwyaf llwyddiannus y canlyniad.</p> <p>Cau dosbarthiadau yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn</p> <p>Deall diffyg disgyblion yn y dosbarthiadau yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn.</p> <p>Ymddengys bod hyn yn seiliedig ar feini prawf mynediad llymach a'r angen i ysgolion gwblhau'r ymateb graddedig llawnach.</p> <p>Mae'n gadael ardal Pontypridd heb ddarpariaeth o gwbl ar gyfer disgyblion ag anawsterau cymhleth.</p> <p>Cau Pont-y-gwaith.</p> <p>Niferoedd isel arwyddocaol ym Mhont-y-gwaith dros y blynyddoedd diwethaf.</p> <p>O ystyried yr agosrwydd i Ben-rhys, Parc y Darren a'r Maerdy, mae cau'r dosbarth yn ymddangos yn rhesymegol. Wedi'i gwblhau gyda diffyg disgyblion.</p> <p>Cau 1 dosbarth Cyfnod Sylfaen ym Mhen-rhys a symud 1 dosbarth Cyfnod Sylfaen i'r Maerdy.</p> <p>O ystyried y dadleuon sydd wedi'u cyflwyno yn y ddogfennaeth y cynnig, mae'n ymddangos bod hyn yn gwrthwynebu'r dadleuon hynny.</p>	<p>Mae darpariaeth Dosbarth Cynnal Dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion cymhleth yn Ysgol Gynradd Gwaunmeisgyn. Mae modd i ddisgyblion ardal Pontypridd fanteisio ar y ddarpariaeth yma.</p> <p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Mae'r cynnig i gau un dosbarth Cyfnod</p>
--	--	---	--

		<p>Dau ddosbarth CA2 ar ôl ym Mhen-rhys - felly does dim darpariaeth hirdymor er mwyn i blant ddatblygu yn yr un sefydliad sy'n ymddangos fel y ddadl graidd dros symud y dosbarth Cyfnod Sylfaen i'r Maerdy.</p> <p>Yn fwy synhwyrol bod y dosbarthiadau sydd ar ôl o ddynodiad hyblyg, felly pe bai'r angen yn codi gall un weithredu fel dosbarth Cyfnod Sylfaen tra bod y llall yn gweithredu fel CA2.</p> <p>Gallai hyn gael ei gyflwyno'n raddol, felly fyddai ail-alinio pellach ddim yn angenrheidiol.</p> <p>Cau CA2 yn Caradog a symud dosbarth Cyfnod Sylfaen i Gwm-bach</p> <p>Mae gan Caradog darpariaeth pob oed. Mae ganddi faterion mynediad, ond mae llawer o waith wedi'i wneud i oresgyn y materion yma a gwneud yr ysgol yn amgylchedd addas.</p>	<p>Sylfaen ac adleoli'r dosbarth Cyfnod Sylfaen arall i'r Maerdy yn sicrhau bod yr effaith ar ddisgyblion sy'n cael mynediad at y Dosbarth Cynnal Dysgu ym Mhen-rhys ar hyn o bryd yn cael ei leihau, gan effeithio ar un disgybl yn unig.</p> <p>O ran hyblygrwydd, mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol adolygu ei ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn barhaus ar draws y sir er mwyn sicrhau bod hynny'n bodloni anghenion dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig sylweddol. Bydd y sefyllfa ym Mhen-rhys yn parhau i fod yn destun monitro ac adolygu yn y cyd-destun yma. Drwy ddarparu 2 Ddosbarth Cynnal Dysgu yn yr un ysgol, mae'n caniatáu i'r Awdurdod Lleol fod yn hyblyg o ran dynodiad cyfnod addysgol y Dosbarth Cynnal Dysgu.</p> <p>Cafodd mân addasiadau rhesymol eu cynnal er mwyn gwella mynediad ar gyfer disgyblion â phroblemau symudedd yn Ysgol Gynradd Caradog. Serch hynny, mae gan y safle gyfyngiadau difrifol. Does dim ardal parcio na man gollwch</p>
--	--	--	--

		<p>Wrth gau'r dosbarth CA2 bydd yn rhaid i'r disgyblion drosglwyddo i Gwm-bach.....effaith sylweddol ar ddysgwyr sy'n rhan o Gymuned Ysgol Caradog.</p> <p>Agor dosbarthiadau newydd yn Nant Gwyn a Threorci</p> <p>Dim problem gydag agor dosbarthiadau newydd, ond byddai'n dymuno sicrhau bod yr holl swyddi wedi'u neilltuo ar gyfer y sawl a fydd yn cael eu diswyddo trwy gau'r dosbarthiadau.</p> <p>Dim darpariaeth pob oed ar gael ar gyfer disgyblion sydd ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol neu Anghenion Cymhleth - mae'r ddarpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol CA2 yn Ysgol Gynradd Bodringallt, sydd bellach yn rhan o glwstwr Treorci, tra bod y ddarpariaeth anghenion cymhleth CA2 ym Mhen-rhys sy'n rhan o glwstwr Tonypandy.....dim cefnogaeth gymdeithasol gan eu cyfoedion wrth iddyn nhw symud i ddarpariaeth</p>	<p>penodol ar y safle fel bod gan ddisgyblion fynediad hawdd at ddarpariaeth yr ysgol. Mae natur ddaearyddol yr ysgol yn golygu does dim modd cynnal addasiadau yn y dyfodol.</p> <p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Pe bai'r cynigion yn parhau ymhellach, bydd trafodaethau yn cael eu cynnal gydag AD a chynrychiolwyr Undebau er mwyn cytuno ar y broses benodi. Bydd angen i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon y gall staff fodloni'r meini prawf hanfodol ac angenrheidiol i fodloni gofynion y swyddi newydd er mwyn penodi'r staff dan sylw.</p> <p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi. Mae'r Awdurdod Lleol adolygu ei ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn barhaus ar draws y sir er mwyn ystyried sut i'w gwella.</p>
--	--	--	--

		<p>uwchradd.</p> <p>Symud Dosbarth Anhwyliderau Cyfathrebu CA2 o'r Hafod i'r Porth</p> <p>Deall yr egwyddor tu ôl i greu darpariaeth pob oed.....mantais bod y dosbarth wedi'i leoli yn yr Hafod.</p> <p>Y cyfleusterau sydd ar gael i ddisgyblion.....o fewn pellter cerdded byr iawn yn wych. Mae'r dosbarth yn yr Hafod yn rhan greiddiol o gymuned yr ysgol..... ac mae yna bryder mawr y bydd yn cael ei golli mewn sefydliad mwy.</p> <p>Cau Dosbarth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol CA2 ym Mhen-y-waun</p> <p>Deall rhesymeg dros gau'r dosbarth, ond wedi synnu gan y diffyg angen am y ddarpariaeth yma yn y lleoliad yma.</p> <p>A oes digon o ymchwiliad wedi'i gynnal o ran pam nad oes disgyblion wedi eu lleoli yma?</p> <p>Mae nifer cynyddol o ddisgyblion ar draws RhCT yn dangos arwyddion ymddygiad a fyddai fel arfer yn nodi'r angen am leoliad mewn dosbarth fel hyn - felly mae'r diffyg disgyblion sy'n cael eu gosod yn peri pryder.</p>	<p>Gweler Crynodeb o'r Materion Allweddol.</p> <p>Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymgymryd â dadansoddiad o anghenion presennol a rhagamcanedig y disgyblion cyn datblygu'r cynnig. Mae data'n dangos bod angen lleoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion ag Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol sylweddol ar gyfer CA3/4, a dyna pam mae'r cynnig yn agored i ddarpariaeth Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol CA3/4.</p>
Rheolwr Materion Trafnidiaeth RhCT	E-bost	<p>Derbyniaf mai nod y cynigion yw mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â nifer y lleoedd mewn darpariaethau allweddol, gan ganiatáu i adnoddau presennol i gael eu hail-gyfeirio i gynyddu capasiti ar gyfer cynhwysiant y brif ffrwd yn ogystal â mynd i'r afael â'r</p>	<p>Mae barn yr ymatebwr wedi'i nodi.</p> <p>Mae'r cynnydd yn y gost trafndiaeth yn</p>

		<p>anghydbwysedd presennol rhwng nifer y darpariaethau cynradd ac uwchradd, yn ogystal â materion pontio a hygyrchedd. Ar ôl adolygu'r cynigion o safbwynt trafndiaeth (gweler yr atodiad), yr wyf yn awgrymu y bydd yr effaith lawn am flwyddyn gyfan oddeutu £120,000 yn ystod blwyddyn ariannol lawn. Mae angen ystyried darpariaeth ar gyfer y mate yma, a bod darpariaeth yn cael ei wneud fel rhan o'r cynllun moderneiddio - Ysgolion yr 21ain Ganrif.</p>	<p>ymwneud yn bennaf â chludo i'r darpariaethau Dosbarth Cynnal Dysgu newydd arfaethedig. Mae sefydlu'r Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yma wedi ei seilio ar ddadansoddiad o anghenion disgyblion.</p>
<p>Themâu allweddol o Ymatebion Ymgynghori Cyffredinol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Goblygiadau cludiant 2. Effaith ar ddisgyblion 3. Adleoli staff a newidiadau o ran telerau ac amodau cyflogaeth 4. Cynnwys disgyblion Anghenion Addysgol Arbennig mewn lleoliadau prif ffrwd 5. Meini Prawf ar gyfer lleoli arbenigol 6. Rhesymeg dros newid 7. Cytundeb cyffredinol gyda'r angen am ddarpariaeth Cyfnod Allweddol 3/4 			

Amserlen o Achlysuron Ymgynghori

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp – Disgyblion/Staff/Rhieni	Dyddiad
Ysgol Gynradd Heol y Celyn	Cyngor yr Ysgol	6 Tachwedd 2018
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Pen-rhys	Cyngor yr Ysgol	7 Tachwedd 2018
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Caradog	Cyngor yr Ysgol	8 Tachwedd 2018
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd yr Hafod	Cyngor yr Ysgol	13 Tachwedd 2018
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Parc y Darren	Cyngor yr Ysgol	14 Tachwedd 2018
	Staff	
	Rhieni	
Ysgol Gynradd Llantrisant	Cyngor yr Ysgol	15 Tachwedd 2018

Amserlen o Gyfarfodydd Cyngor yr Ysgol

Ysgol fydd yn cael ei heffeithio	Grŵp – Disgyblion/Staff/Rhieni	Dyddiad
Ysgol Gynradd y Maerdy	Cyngor yr Ysgol	9 Tachwedd 2018
Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith	Cyngor yr Ysgol	9 Tachwedd 2018
Ysgol Gymuned y Porth	Cyngor yr Ysgol	9 Tachwedd 2018
Ysgol Nant-gwyn	Cyngor yr Ysgol	9 Tachwedd 2018
Ysgol Gyfun Treorci	Cyngor yr Ysgol	9 Tachwedd 2018
Ysgol Gynradd Cwm-bach	Cyngor yr Ysgol	15 Tachwedd 2018
Ysgol Gynradd Pen-y-waun	Cyngor yr Ysgol	15 Tachwedd 2018

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Caradog		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Caradog		
Dyddiad	8/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	7 aelod o staff y Dosbarth Cynnal Dysgu
Nifer y Cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol:	7	Nifer y Rhieni: a Llywodraethwyr	Tua 12 o rieni'r Dosbarth Cynnal Dysgu a chynrychiolydd o'r Corff Llywodraethu
Math o gyfarfod:	Staff, disgyblion, rhieni, Pennaeth, Cadeirydd y Corff Llywodraethu		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Kate Hill, Lisa Carter, Clare Jones (Undeb), Nicole Pearce a Louise Richards (Adnoddau Dynol)		
Staff			
<p>Cyflwynodd LC y cynigion gan esbonio'r broses ymgynghori a sail resymegol y cynigion. Codwyd nifer o gwestiynau a phryderon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Fydd yr adeilad yn cael ei addasu i ddiwallu anghenion disgyblion – fydd arian ar gael? <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae'r ysgol arfaethedig ar gyfer adleoli'r dosbarth wedi elwa ar fuddsoddiad Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, ac mae'r adeilad yn gwbl hygyrch. Bydd gofynion disgyblion unigol yn cael eu hadolygu pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo. • Pa gymorth fydd ar gael i ddisgyblion o ran y cyfnod pontio? <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd cymorth cadarn o ran pontio ar gael gyda chefnogaeth yr Awdurdod Lleol. 			

- Beth yw'r goblygiadau i staff?
 - Rhoddodd NP wybodaeth ynglŷn ag ymgynghori ag undebau a pholisi rheoli newid. Cafodd staff eu cynghori er mai dyma gyfnod sy'n peri pryder, rydyn ni ar y cam cynnig yn unig. Unwaith y bydd hyn yn cael ei gymeradwyo yn ffurfiol, bydd staff yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda chynrychiolydd yr undeb i gytuno ar sut y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu.
- Sylwadau Cyffredinol:
 - Gallu deall yr angen i gau dosbarthiadau heb unrhyw ddisgyblion, ond mae'r dosbarthiadau yma yn llawn.
 - Deall y broses o gau dosbarthiadau o ganlyniad i ddiffyg disgyblion, deall ysgolion pob oed cynradd, ond does dim pryderon o'r fath gan yr ysgol/dosbarth yma.

Disgyblion

Cyflwynodd LC y cynigion neu'r syniadau o ran newid i'r grŵp

- Gofynnwyd i'r disgyblion 'ydych chi'n gwybod pam ein bod ni yma?' Sut rydych chi'n teimlo am y syniad hwnnw?
 - Rydych chi eisiau cau ein dosbarthiadau – AAA
 - Ysgol Gynradd Cwm-bach – modern
 - Llai o bobl yn iard yr ysgol – gweld eisiau'r disgyblion, teimlo'n wahanol
- Sylwadau Cyffredinol:
 - Hoffi'r ffaith bod gan ddisgyblion AAA yr un cyfleoedd â phawb arall.
 - Beth sy'n digwydd i adnoddau'r dosbarth? – Mae'n bosibl y byddai offer yn symud neu'n aros os yw'r ysgol yn berchen arno, bydd arian yn cael ei ddefnyddio i agor rhagor o ddosbarthiadau uwchradd.
 - Beth fyddai'n digwydd i athrawon? – Bydd modd iddyn nhw wneud cais am swydd, ymddeol neu wneud cais am swydd newydd.
 - Dylai dosbarthiadau aros.
 - Beth fyddai'n digwydd i ddisgyblion pe na fydden nhw'n hoffi'r ysgol newydd.
 - Cododd yr ysgol lawer o arian ar gyfer un disgybl, fyddai lle ar gyfer offer y disgybl hwnnw – Byddai, bydden ni'n sicrhau hynny.

Rhieni

Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r cynigion ymgynghori, sail resymegol y cynnig a'r broses ymgynghori. Cafodd rhieni a Llywodraethwyr gyfle i ofyn cwestiynau/mynegi pryderon:

- Pam Ysgol Gynradd Cwm-bach – gallu gweld ysgol wych, ond mae maint y dosbarthiadau yn siomi. Faint o ddisgyblion fydd yn y dosbarth?
 - Mae Ysgol Gynradd Cwm-bach wedi elwa ar fuddsoddiad Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif sylweddol ac mae'r ysgol yn gwbl hygrch. Bydd maint y dosbarthiadau yn parhau i fod yn gyson â'r lefel bresennol, (8 CS a 10 CA2 gan ddibynnu ar anghenion y disgyblion sy'n mynychu'r ddarpariaeth)
- Fydd gan blant gysylltiadau â disgyblion eraill yn yr ysgol?
 - Bydd, mae disgwyl i bob dosbarth cynnal dysgu integreiddio gyda disgyblion y brif ffrwd.
- Beth sy'n digwydd pe na hoffai disgyblion fynd? Beth yw'r posibilrwydd o ran prif ffrwd â chymorth, dosbarthiadau cynnal dysgu neu ysgol arbennig?
 - Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda'r staff a rhieni priodol i drafod y lleoliad mwyaf addas ar gyfer pob disgybl unigol pan fyddwn ni'n gwybod

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Pen-rhys
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Pen-rhys yn, pryderon na fydd athro/athrawes CA2 yn symud gyda'r dosbarth. Pe bai athro/athrawes y dosbarth yn symud, fyddai'r rnienn ddim yn poeni.
	<ul style="list-style-type: none"> ○ Mae Ysgol Gynradd Caradog yn ysgol gynhwysol, mae disgyblion yn deall disgyblion AAA. ○ Mae angen cymorth ar nifer sylweddol o ddisgyblion – beth am ragor o ddosbarthiadau. Dydy Cwm-bach ddim wedi'i sefydlu, bydd angen gwario swm sylweddol o arian i'w pharatoi. ○ Deall pwysigrwydd ysgolion pob oed cynradd, ond mae gan yr ysgol y ddarpariaeth honno felly pam symud hi? ○ Mae'r dosbarth yn gysur i'r disgyblion, mae'n diwallu anghenion y disgybl. ○ Un disgybl penodol – pryderon ynglŷn â maint yr ystafell ddosbarth, dim lle i symud, angen am ystafell benodol ar gyfer offer, stordy, toiled i'r anabl ar ochr arall yr adeilad, dim teclyn codi.

Dyddiad	7/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	8
Nifer y Cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol:	5	Nifer y Rhieni a Llywodraethwyr:	40+
Math o gyfarfod:	Staff, disgyblion, rhieni		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Ceri Jones, Lisa Carter, Alice Holloway, Nicole Pearce AD Clare Jones (Undeb), Mark Cleverley (Undeb)		
Staff			
<p>Cyflwynodd CJ y cynigion gan esbonio'r broses ymgynghori a sail resymegol y cynigion. Codwyd nifer o gwestiynau a phryderon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gofynnodd y rhai oedd wedi mynychu am y rhesymau tu ôl i'r cynnig i gau darpariaeth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys i greu ysgol pob oed cynradd yn Ysgol Gynradd y Maerdy. <ul style="list-style-type: none"> ○ Pwysleisodd CJ y sail resymegol dros newid: lleihau nifer y lleoedd dros ben, uchelgais i gynyddu nifer yr ysgolion pob oed cynradd, lleihau'r cyfnod pontio diangen ar gyfer disgyblion AAA. • Mynegwyd pryderon y bydd darpariaeth CA2 yn gostwng yn Ysgol Gynradd Pen-rhys gan na fydd disgyblion yn trosglwyddo o ddosbarth y Cyfnod Sylfaen. • Cafodd swyddogion eu cwestiynu ynglŷn â chynllun hirdymor yr Awdurdod Lleol. Ai'r bwriad oedd cau pob dosbarth yn Ysgol Gynradd Pen-rhys wrth i nifer y disgyblion ostwng trwy'r blynyddoedd? <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynghorodd CJ fod cynigion y dosbarthiadau cynnal dysgu ar wahân i gynigion Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Doedden ni ddim yn effro i unrhyw fwriad i gau'r ysgol. • Bydd teithio yng Nghwm Rhondda i'r Maerdy yn ymestyn y pellter y bydd raid i ddisgyblion ei deithio – mae Pen-rhys yn agosach, ydy hyn wedi cael ei ystyried? Codwyd pwynt nad yw'r pellter o Gwm Rhondda (ardal Pen-rhys) i'r Maerdy yn deg ar ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen. <ul style="list-style-type: none"> ○ Bydd raid i ddisgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth wneud hynny o fewn y graddfeydd amser wedi'u pennu yn y Polisi Teithio gan Ddysgwyr. • Mae Ysgol Gynradd Pen-rhys yn cynnwys rhagor o ardaloedd clwstwr – beth am symud dosbarthiadau o'r Ysgol Gynradd y Maerdy i Ysgol Gynradd Pen-rhys. Pam adleoli? Cafodd yr ymatebion uchod eu hailadrodd. • Yn ôl adroddiadau roedd galwad ffôn gan wasanaeth AAA (tair blynedd yn ôl) yn newid darpariaeth dosbarthiadau o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 2. <ul style="list-style-type: none"> ○ Esboniodd CJ mai dyma gyfnod cyn iddi gael y swydd a doedd hi ddim yn effro i'r sgwrs. Doedd dim ad-drefniant ffurfiol o ddosbarthiadau yn Ysgol Gynradd Pen-rhys. Mae gofyn ar Benaethiaid dosbarthiadau cynnal dysgu i fod yn hyblyg gyda niferoedd/darpariaeth yn achlysurol er mwyn diwallu anghenion disgyblion ar unrhyw gyfnod penodol. ○ Beth ydy'r manteision ar gyfer Cymuned Pen-rhys yn lle'r Maerdy? 			

- Esboniwyd bod gan Ysgol Gynradd y Maerdy ddosbarth Cyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd, a byddai'r cynigion yn gwella'r ddarpariaeth a lleihau'r cyfnod pontio diangen ar gyfer disgyblion.
- Esboniodd CJ a MC y pwysigrwydd o ymateb i ymgynghoriadau
- Esboniodd NP broses a gweithdrefnau Adnoddau Dynol o ran trafod opsiynau gyda phawb yn yr ysgolion fydd yn cael eu heffeithio. Codwyd y materion canlynol:
 - Ble byddai staff yn mynd?
 - Fyddai staff yr ysgolion fydd yn cael eu heffeithio yn cael eu neilltuo?
 - Cwestiynau ynglŷn â swyddi – darpariaethau eraill/newydd, dulliau neilltuo?
 - Mae gan 2 Gynorthwy-ydd Cymorth Dysgu ddiddordeb mewn gadael.
 - Fyddwch chi'n edrych ar sgiliau staff?
 - Gofynnodd staff am gyfleoedd yn y cynigion
- Cynghorodd adran AD y bydd canllawiau a gweithdrefnau yn cael eu dilyn
- Cafodd staff eu cynghori er mai dyma gyfnod sy'n peri pryder, rydyn ni ar y cam cynnig yn unig. Os bydd cytundeb i barhau â'r cynigion, bydd staff yr Awdurdod Lleol yn gweithio gyda chynrychiolwyr yr undebau i gytuno ar sut y bydd y cynigion yn cael eu gweithredu.
- Ai cau pob un o'r 4 dosbarth yw'r cynllun?
 - Cynghorodd CJ y grŵp fod gofyniad ar yr Awdurdod Lleol i adolygu ei ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn diwallu anghenion disgyblion AAA.

Disgyblion

Cyflwynodd CJ swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion i'r disgyblion am eu barn ar y syniad.

- Gofynnodd CJ – ydych chi'n gwybod pa ddosbarth ysgol fydd yn symud hefyd?
 - Roedd y disgyblion yn effro i Ysgol Gynradd y Maerdy a'i lleoliad, esboniodd un disgybl eu bod nhw wedi gweithio gyda disgyblion o'r ysgol o'r blaen.
 - Nodiodd y rhan fwyaf o ddisgyblion eu pennau – ond wnaethon nhw ddim ymateb ar lafar.
- Gofynnwyd cwestiwn i CJ – Beth fydd yn digwydd i'r disgyblion? Ble bydd yr holl ddisgyblion yn mynd os bydd y dosbarth yn cau?
 - Esboniodd CJ fod gan y dosbarth 1 disgybl yn unig ar hyn o bryd a bydd e/hi yn symud gyda'r dosbarth.
- Anogodd y Pennaeth y disgyblion gan iddyn nhw fynd yn dawel.
- Gofynnodd LC y disgyblion am eu barn.
 - Atebodd un disgybl gan ddweud 'fine in general but would prefer the class to stay'
- Rhoddodd y Pennaeth wybod am sylw disgybl blwyddyn 6 nad oedd modd iddo fynychu'r cyfarfod. Roedd e yn y dosbarth cynnal dysgu pan ddechreuodd e yn yr ysgol, ac mae fe o'r farn bod y dosbarth wedi ei helpu. O ganlyniad i'r cymorth ychwanegol a gafodd, roedd modd iddo symud i ddosbarth y brif ffrwd am weddill ei addysg – gan fod yna ddarpariaeth ar draws y dosbarthiadau.
- Beth fydd yn digwydd i'r dosbarth?
 - Esboniodd CJ mai dyma benderfyniad i'r Pennaeth a chyngor yr ysgol yn yr ysgol newydd.
- Cododd un disgybl bryderon o ran yr angen i brynu siwmpwr newydd.

- Esboniodd CJ y byddai angen iddyn nhw wisgo gwisg ysgol newydd.

Rhieni

Cyflwynodd CJ swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio cynigion yr ymgynghoriad, sail resymegol y cynnig a'r broses ymgynghori. Cafodd rhieni a Llywodraethwyr gyfle i ofyn cwestiynau/mynegi pryderon:

- Beth yw'r rheswm dros y cwmp o ran niferoedd y ddarpariaeth? Beth sy'n digwydd i'r disgyblion nad ydyn nhw'n bodloni'r meini prawf neu'n ymdopi yn nosbarthiadau'r brif ffrwd? Efallai bod y dosbarthiadau yn llawn, serch hynny o ganlyniad i'r cwmp o ran y meini prawf, mae'r disgyblion yma yn nosbarthiadau'r brif ffrwd. Mae'r meini prawf mor isel fel nad oes cymorth. Beth am lenwi dosbarthiadau cymorth dysgu? Mae llawer o blant ar eu colled o ganlyniad i'r meini prawf.
 - Mae'r meini prawf ar gyfer llefydd mewn dosbarthiadau cymorth dysgu yn fater ar wahân i'r cynnig rydyn ni'n ei drafod heddiw.
- Beth mae lleddfu effaith yn ei olygu? Bydd hyn yn cael effaith enfawr ar angen disgyblion y dosbarthiadau yma am barhad.
 - Esboniwyd y byddai'r cynnig yn effeithio ar un disgybl.
- Sut y caiff disgyblion ag anghenion ychwanegol eu cefnogi yn yr ysgol uwchradd gydag oriau yn unig yn hytrach na bod mewn dosbarth cynnal dysgu? Beth yw'r cynlluniau ar gyfer athrawon prif ffrwd disgyblion mae angen cymorth ychwanegol arny'n nhw? Sut mae modd i athrawon helpu'r disgyblion hynny mewn dosbarth o 30+ o ddisgyblion?
 - Mae gan RCT Agenda Cynhwysiad sy'n rhoi gofyniad ar bob ysgol i gefnogi'r holl ddysgwyr.
- Codwyd pryderon y bydd y cwmp yn nifer y disgyblion mewn dosbarthiadau cynnal dysgu yn cael effaith ar niferoedd yr ysgol gyfan a byddai'r ysgol yn cau.
 - Esboniodd CJ nad oedd cynigion y dosbarthiadau cynnal dysgu yn gysylltiedig ag unrhyw gynigion eraill ynglŷn â'r ysgol.
- Ai arian yw'r prif fater? Does dim cyllid ar gael – mae disgyblion y brif ffrwd yn ei chael hi'n anodd, ond dydyn nhw ddim yn bodloni meini prawf Does dim modd i'r brif ffrwd fodloni anghenion y disgyblion hyn – ond mae dosbarthiadau yn cau.
 - Esboniwyd nad yw'r cynigion yma yn ffordd o arbed arian ac mae'r arian yn cael ei ddefnyddio i gefnogi disgyblion AAA yn well trwy agor darpariaethau newydd yn yr ardal.
- Beth sy'n digwydd i blant arfaethedig y feithrinfa sy'n dechrau yn yr ysgol sy heb ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen?
 - Bydd gan ddisgyblion yr un cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu trwy banel lleoliadau.
- Sut bydd modd cau dosbarthiadau â phrofiad? Ddim o'r farn y dylai'r dosbarth gau – mae angen y dosbarth/dosbarthiadau.
 - Yn ôl data, mae nifer y disgyblion y mae angen darpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu'r Cyfnod Sylfaen arny'n nhw yn gostwng.
 - Yn ôl ymateb y gynulleidfa, dydy'r data ddim yn adlewyrchu'r angen neu'r realiti.
- Materion Cyffredinol a godwyd:
 - Pam rydyn ni yn y cyfarfod yma? Mae'r penderfyniad wedi cael ei wneud yn barod.
 - Mae dosbarthiadau yn gweithio'n dda, pam newid nhw?
 - Cynnydd gorau wedi'i wneud mewn dosbarthiadau cynnal dysgu.
 - Rhiant disgybl oedd mewn dosbarth y brif ffrwd yn yr ysgol flaenorol, doedd hyn ddim wedi gweithio'n dda. Pan aeth e i Ysgol Gynradd Pen-rhys, daeth yn ddisgybl delfrydol – mae'r brawd yn cael ei addysg gartref.

- Ddim yn cael effaith ar 1 disgybl yn unig – mae meini prawf isel wedi cael effaith ar fynediad i ddosbarthiadau.
- Pryderon ynglŷn â chau'r ysgol.
- Ddim yn gallu deall y penderfyniad.
- Mae athrawon yr ysgol yn gwneud popeth ar gyfer y disgyblion. Dydyn nhw ddim yn poeni am y canlyniadau, dim ond yr hyn sy'n gweithio orau i'r disgyblion.
- Maen nhw o'r farn bod y newid yma yn cael effaith ar yr ysgol gyfan, nid un disgybl yn unig. Mae'n ysgol sy'n feithringar. Roedd dosbarthiadau yn llawn

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Cwm-bach		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Cwm-bach		
Dyddiad	15/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	2
Nifer y Cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol:	15	Nifer y Rhieni:	
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	2
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Lisa Carter ac Alice Holloway		

Disgyblion

Cyflwynodd LC swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion i'r disgyblion am eu barn ar y syniad.

- Mynegodd y plant y bydd rhagor o blant ag anghenion dysgu ychwanegol yn dod i'r ysgol.
- Roedd disgyblion o'r farn ei bod hi'n syniad da.
- Roedden nhw'n hoff iawn o'r ffaith y bydd gan athro/athrawes y dosbarth cynnal dysgu ragor o bobl i drafod syniadau gyda nhw.
- Bydd gan ddisgyblion presennol y dosbarth cynnal dysgu ffrindiau newydd.
- Gwnaeth un disgybl sylw y byddai rhagor o ddisgyblion i chwarae gyda nhw gan y byddai 2 ddosbarth.
- Ydy'r ystafell ddosbarth yn ddigon mawr ar gyfer yr holl blant newydd?
 - Atebodd LC gan ddweud bod yr ystafell ddosbarth yn ddigon mawr ond pe hoffai gwirfoddolwr fynd â LC ac AH i weld yr ystafell ddosbarth newydd ar ôl y cyfarfod, byddai hynny'n wych.
- Gofynnodd y disgyblion nifer o gwestiynau argymhellol.
 - Oes gan unrhyw un o'r plant gynorthwy-ydd 1:1?
 - Fydd unrhyw athrawon y ddwy ysgol yn colli eu swyddi?

- Fydd Mrs Kirby yn cael mwy o gymorth gan oedolion yn y dosbarth?
- Faint o blant fydd yn fy nosbarth ym mis Medi?
- Esboniodd LC i'r grŵp nad oedd modd iddi roi atebion penodol i'r cwestiynau ar yr adeg yna gan fod y 'syniad' ar y cam cynnig yn unig. Unwaith ein bod ni'n gwybod a fydd y syniad yn mynd rhagddo, byddwn ni'n gwybod rhagor o fanylion.
- Pam rydych chi'n cynllunio'r newid yma?
 - Esboniwyd y cafodd adolygiad o ddarpariaeth ei gynnal ac roedd hi'n amlwg nad oedd y Gwasanaeth yn bodloni anghenion disgyblion a bod angen cynnal newidiadau e.e. cynyddu darpariaeth, cau darpariaeth sy ddim yn cael ei defnyddio'n ddigon aml, adleoli dosbarthiadau. Mae gan Ysgol Gynradd Cwm-bach ddosbarth Cyfnod Allweddol 2, felly hoffem ni ddosbarth arall ar gyfer disgyblion y Cyfnod Sylfaen i greu ysgol pob oed cynradd. Wedi ystyried safbwynt y ddwy ysgol gan nad oedd y disgyblion eisiau'r broses symud i fod yn wael ar gyfer ysgolion/disgyblion eraill.
- Fydd rhaid i ni symud dosbarth eto?
 - Esboniodd y Pennaeth fod dosbarthiadau wedi symud dros yr haf. Atebodd LC gan ddweud, hyd y gŵyr hi, na fyddai'r dosbarth yn symud .

Staff

- Pam nad oes disgyblion yn y dosbarthiadau sy'n cau gan eu bod nhw'n effro i ddisgyblion y brif ffrwd mae angen y cymorth arnyn nhw?
 - Esboniwyd bod unrhyw ddisgyblion mae angen lleoliad arnyn nhw yn mynd i banel yn dilyn derbyn ymateb graddedig ac unrhyw wybodaeth ategol. Os bydd y disgybl yn bodloni'r meini prawf, mae lleoliad yn cael ei gynnig fel y bo'n addas.

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd y Maerdy		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd y Maerdy		
Dyddiad	9/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	2
Nifer y Cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol:	14	Nifer y Rhieni:	0
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	4
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Kate Hill ac Alice Holloway		
Disgyblion			
<p>Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r cynigion/newidiadau wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniodd disgyblion eu bod nhw wedi mynd i ddosbarth cynnal dysgu presennol yr ysgol i weld y gwahaniaeth rhyngddo a'u dosbarth nhw – roedd disgyblion yn hoff o'r dosbarth a sut mae'r disgyblion yn dysgu. • Dysgu ar y lefel gywir yn y dosbarth cynnal dysgu. • Mwy o sylw = dysgu'n well mewn dosbarthiadau bach. • Meddwl ei fod yn gynnydd da <p>Gofynnodd KH a ydy'r disgyblion yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'r disgyblion yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau nofio, teithiau ac amser chwarae. <p>Gofynnodd KH sut byddech chi'n teimlo am gael disgyblion iau?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cytunodd pawb ei bod hi'n iawn. • Gofynnodd y disgyblion ble byddai'r dosbarth? <ul style="list-style-type: none"> ○ Esboniodd KH mai dyma benderfyniad i'r ysgol a'r Pennaeth. • Pa mor hir mae'r broses? <ul style="list-style-type: none"> ○ Cafodd y broses a'r raddfa amser i gytuno ar bethau eu hesbonio i'r disgyblion. 			

- Sut gwnaethon ni feddwl am y syniad?
 - Esboniodd KH ein bod ni'n edrych ar bob un o'r dosbarthiadau cynnal dysgu yn RhCT ac edrych ar yr hyn sydd orau i bob disgybl.
- Fydd Miss Bradbury yn gadael?
 - Na fydd, nid mewn cysylltiad â'r cynnig yma.

Gofynnwyd cwestiwn i'r disgyblion ynglŷn â sut maen nhw'n teimlo am y cynnig.

- Ymatebodd y plant eu bod nhw'n edrych ymlaen at ddod i adnabod y plant eraill.
- Hapus gan fod angen i blant iau ddysgu.
- Syniad da.
- Bydd modd i athrawon eu helpu nhw a'i gilydd.
- Bydd plant yn dysgu'n well.

Llywodraethwyr

- Fydd gan yr ysgol / Pennaeth hawl o ran trefniadau staff y dosbarth?
 - Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gydag Undebau ac adran Adnoddau Dynol i gynnal y broses benodi.

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Nant-gwyn		
Lleoliad:	Ysgol Nant-gwyn		
Dyddiad	9/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	2
Nifer y cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol:	5	Nifer y Rhieni:	
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	2
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Kate Hill ac Alice Holloway		

Disgyblion

Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol a'r cynigion / newidiadau wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â threfnu'r dosbarth a sut byddai hyn yn addas o fewn trefniant ehangach yr ysgol. Roedd trafodaeth rhwng KH a disgyblion mewn perthynas â sut byddai disgyblion y brif ffrwd yn cynnwys disgyblion o'r dosbarth ac unrhyw bryderon sydd gyda nhw. Esboniodd KH strwythurau o ran staff, goruchwyliaeth a sut mae dosbarthiadau Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol (SEBD) presennol yn cael eu gweithredu mewn ysgol uwchradd arall. Enghreifftiau o gwestiynau:

- Faint fydd yn y dosbarth?
- Fyddai dosbarth cynnal dysgu ar gyfer pob angen addysgol arbennig?
- Faint fydd hyn yn ei gostio i ni?
- Beth fyddai anfanteision y cynigion? Rhoi'r holl anghenion gwahanol gyda'i gilydd?
- Fyddai cymysg o ferched a bechgyn?
- Fyddden nhw'n dechrau yn y dosbarth neu'r brif ffrwd?
- Stigma o fod yn y dosbarth? Sut bydden ni'n helpu i atal bwlio?
- Fyddai athrawon o'n hysgolion yn mynd i'r dosbarth?

- Ydy'r athrawon wedi'u cyflogi gan yr ysgol neu'r cyngor?
- Sut byddai'r disgyblion iau yn teimlo am y dosbarth?
- Fyddai'r disgyblion iau yn gwybod yr hyn y mae'n ei olygu?
- Sut byddai amser egwyl yn cael ei reoli?
- A fyddai gan ddisgyblion ddewis i fynd i'r dosbarth?
- Beth sy'n digwydd os bydd y rhieni yn cytuno ag anfon eu plentyn i'r dosbarth ond dydy'r plentyn ddim am fynd?
- Stigma – mynd i rai gwersi'r brif ffrwd.
- Fyddai'r disgyblion yn dal i sefyll arholiadau?
- Fyddech chi'n rhoi disgyblion y brif ffrwd ag ymddygiad gwael yn y dosbarth?
- Fyddech chi'n cymysgu disgyblion sydd ag awtistiaeth â disgyblion ag anghenion ymddygiadol?
- Beth yw'r broses o agor y dosbarth?

Atebodd KH bob cwestiwn mor gyflawn â phosibl, ac esboniodd broses yr adroddiad ymgynghori, hysbysiad statudol a'r camau nesaf.

Llywodraethwr

Gofynnodd Llywodraethwyr sut byddai disgyblion y brif ffrwd yn cael eu cefnogi pe baen nhw'n gweld ymddygiad amhriodol. Esboniodd KH sut y byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio gyda'r ysgol gyfan i'w pharatoi ar gyfer agor y dosbarth.

Hoffai'r Llywodraethwyr drefnu cyfarfod gyda'r holl rieni i esbonio sut y byddai'r dosbarth yn gweithredu yn yr ysgol.

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Pen-y-waun		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Pen-y-waun		
Dyddiad	15/11/2018	Nifer yr aelodau o s	1
Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu			
Nifer y Cynrychiolwyr Cyngor yr Ysgol:	10	Nifer y Rhieni:	
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Lisa Carter ac Alice Holloway		
Disgyblion			
<p>Cyflwynodd LC swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion am farn y disgyblion ar y syniad. Dywedodd y disgyblion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gallai'r ystafell ddosbarth gael ei defnyddio ar gyfer rhywbeth arall. • Poeni eu bod nhw'n colli staff. • Pam torri cyllideb athrawon – <ul style="list-style-type: none"> ○ Wedi esbonio nad yw'r gyllideb yn cael ei thorri, ond rydyn ni'n defnyddio adnoddau i agor dosbarthiadau eraill. • Beth sy'n digwydd i ddisgyblion ac athrawon – <ul style="list-style-type: none"> ○ Esboniwyd na fydd effaith ar ddisgyblion nac ar staff • Roedd disgyblion yn hapus i'r dosbarth gau. 			

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Lleoliad:	Ysgol Gynradd Pont-y-gwaith		
Dyddiad	9/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	Pennaeth
Nifer y Disgyblion:	9	Nifer y Rhieni:	1
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Kate Hill ac Alice Holloway		
Disgyblion			
<p>Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion / newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion am farn y disgyblion ar y syniad. Dywedodd y disgyblion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd disgyblion o'r farn bod yr ysgol yn dawel ers i'r dosbarth fod yn wag. • Hoffi cael y dosbarth yn rhan o'r ysgol. • Trist nad yw disgyblion y dosbarth cynnal dysgu yn yr ysgol mwyach, y feithrinfa yw'r hen ddosbarth cynnal dysgu. • Esboniodd KH ystyr ysgol pob oed cynradd. <ul style="list-style-type: none"> ○ Roedd disgyblion o'r farn bod hyn yn syniad da gan nad oes rhaid i blant symud. 			
Llywodraethwr			
<ul style="list-style-type: none"> • Ble mae'r disgyblion a ddylai fod yn nosbarth cynnal dysgu Pont-y-gwaith? • Beth/sut byddai plant yn mynd i Ysgol Gynradd y Maerdy? <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae gan ddisgyblion sy'n mynd i ddosbarthiadau cynnal dysgu hawl i drafnidiaeth yn unol â Pholisi Teithio Dysgwyr. • Cwestiynau ynglŷn ag Ymgynghoriadau. Cymdeithas Llywodraethwyr RhCT? Ddylai ysgolion arbennig gael gwybod? <ul style="list-style-type: none"> ○ Mae ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru. 			

Enw'r ysgol:	Ysgol Gymuned y Porth		
Lleoliad:	Ysgol Gymuned y Porth		
Dyddiad	20/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	
Nifer y Disgyblion:	5	Nifer y Rhieni:	
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Kate Hill		
Disgyblion			
<p>Cyflwynodd LC swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion am farn y disgyblion ar y syniad. Dywedodd y disgyblion:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae'n syniad da – helpu a chefnogi pobl sydd â phroblemau. • Yr uned – Saesneg, Gwyddoniaeth, Mathemateg, Addysg Gorfforol – yn y brif ffrwd gyda chymorth. • Weithiau mae disgyblion ag awtistiaeth yn achosi oedi – byddai cymorth ychwanegol yn dda. • Byddai angen meddwl am sut mae plant yn yr uned yn cael eu trin gan ddisgyblion eraill – gwneud hwyl/galw enwau. • Efallai bydd raid i'r plant iau feddwl am le sy'n ddiogel i chwarae – ddim yn cael gorfodi plant i gael eu gwahanu – achosi arwahanu, rhaid integreiddio. • Syniad da yn gyffredinol. 			

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gyfun Treorci		
Lleoliad:	Ysgol Gyfun Treorci		
Dyddiad	16/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	1
Nifer y Disgyblion:	13	Nifer y Rhieni:	
Math o gyfarfod:	Cyngor yr Ysgol	Nifer y Llywodraethwyr	2
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Lisa Carter ac Alice Holloway		
Disgyblion			
<p>Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion / newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion am farn y disgyblion ar y syniad. Roedd gan ddisgyblion nifer o gwestiynau:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn nosbarthiadau cynnal dysgu ysgolion eraill, faint mae'r disgyblion yma yn integreiddio yn nosbarthiadau'r brif ffrwd? • Mae llawer o bwysau ar ddisgyblion. Fyddai disgyblion y dosbarthiadau cynnal dysgu yn teimlo dan bwysau? • Ble byddai'r dosbarth yn mynd? • Fydd gan ddisgyblion yn y dosbarth anghenion gwahanol? • Yn y dyfodol, fyddai rhagor o ddisbarthiadau yn eu lle unwaith bod y dosbarth arfaethedig yn ei le? • Beth fyddai'n cael ei wneud i sicrhau bod gan y disgyblion gymorth – ddim yn cael eu trin yn wahanol? • O ran y dosbarthiadau integredig, fyddai athrawon y brif ffrwd yn cael hyfforddiant i helpu i gefnogi disgyblion y dosbarth cynnal dysgu? • Fyddai cost ar gyfer hyfforddi'r athrawon yma? • Fyddai disgyblion y dosbarth cynnal dysgu yn cael egwylliau rhwng gwersi? • Fyddai'r dosbarth yma yn cael ei ddysgu gan athrawon yn yr ysgol neu'r Awdurdod Lleol? • Mae gan rai disgyblion eu hallwedd eu hunain i'r toiledau o ganlyniad i'r polisi toiledau dan glo. • Mae disgybl yn yr ysgol sydd mewn cadair olwyn ac mae ganddi fynediad i bopeth. • Fydd y dosbarth yn cael ei redeg yn yr un modd â dosbarthiadau eraill? • Efallai bydd y ciw amser cinio yn hir. Awgrymwyd amseroedd cinio gwahanol posibl. 			

- Fyddan nhw'n cael dosbarthiadau gwahanol neu 1 yn unig?
- Os bydd y disgyblion yn cael eu hintegreiddio i ddsbarthiadau'r brif ffrwd, fydd gyda nhw weithiwr cymorth?
- Fyddai disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol?
- Os byddan nhw'n aflonyddu yn y dosbarth, pa gamau fydd yn cael eu cymryd os byddan nhw'n parhau i wneud hyn?
- Fyddan nhw'n aros mewn un dosbarth?
- Fyddai banc adnoddau gyda nhw?
- Fydd athrawon y brif ffrwd yn cael eu cefnogi gan athrawon y dosbarth cynnal dysgu?
- Fydd hi'n effeithio ar ddisgyblion presennol?
- Fyddan nhw'n defnyddio'r un athrawon? e.e. athrawon Addysg Gorfforol?
- Fydd un athro/athrawes yn unig?
- Sut byddai gwersi Addysg Gorfforol yn gweithio? Gweithgareddau penodol?
- Os na fydd y plentyn yn addasu, fydd e'n symud? Neu'n cael cymorth? Neu'n aros?
- Teithiau ysgol – fydden nhw'n cymryd rhan?
- Diwrnodau oddi ar yr amserlen – fydden nhw'n cymryd rhan?
- Fyddan nhw'n dod i wasanaeth yr ysgol?
- Paratoi – system – gorffen gwaith yn y gwersi yma – fyddai disgyblion y dosbarth cynnal dysgu yn cael mynediad i hyn?
- Fyddai angen amserlen a phanel arnyn nhw?
- Fyddai modd i ddisgyblion dosbarthiadau'r brif ffrwd yn Nhreforci fynd i'r dosbarth cynnal dysgu newydd pe bai angen?
- Beth am fwlio? Awgrymodd disgyblion y byddai amseroedd egwyl ar wahân, o bosibl, yn atal bwlio.
- Ataliadau – fyddai gan ddisgyblion y dosbarth cynnal dysgu Gynorthwy-ydd Cymorth Dysgu yn bresennol? Mae modd i ataliadau (detentions) bara hyd at 60 munud felly sut byddai hynny'n gweithio?
- Mae blwyddyn 10 ac 11 yn mynd allan i'r gymuned am ginio. Fyddai modd i'r disgyblion wneud hynny?
- Gweithgareddau allgyrsiol – fyddai modd i'w tacsio ddod yn hwyrach i'w casglu nhw?
- Barn y rhieni – beth sydd wedi cael ei wneud i gasglu eu barn?
 - Atebodd LC y cwestiynau mor gyflawn â phosibl.

Llywodraethwyr

Cwestiynau gan Lywodraethwyr

- Fyddai modd i'r ysgol wneud lle am ragor o ddisgyblion gan y byddai'r ysgol wedi cyrraedd ei chapasiti erbyn 2020?
- 1:1 yn y dosbarth, fyddai'r un gynorthwy-ydd yn y dosbarth? Wedi'i neilltuo i'r dosbarth hwnnw?
- Fyddai pob disgybl yn RhCT yn dod i'r ysgol neu'r rhai sydd yn y dalgylch yn unig?
- Ydy'r ysgol wedi cael ei harolygu o ran addasrwydd/hygyrchedd? Llauer o risiau?
- Oes gan rai disgyblion weithwyr 1:1? Fyddai'r gweithwyr yn dod gyda nhw?

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

- Polisi drws dan glo?
- Trafnidiaeth? Tacsis yn gadael yn gynt.
- O ble mae'r ffigwr 14 yn dod ar gyfer y nifer uchaf o ran disgyblion y dosbarth?
- Fydd y disgyblion yma am dymor? Blwyddyn?
- Cael mynediad i'r pwll nofio?
- Pryderon ynglŷn â bwlio?
- O safbwynt athrawon, beth yw'r gymhareb? 1 Athro 2 Gynorthwy-ydd Cymorth Dysgu
- Cabinet yn edrych ar gynigion ar sail yr ysgol.

Staff

- Mae llawer o ddisgyblion ag anghenion arbenigol yn yr ysgol yn barod ac rydyn ni'n ymdopi'n dda.

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Heol y Celyn		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Heol y Celyn		
Dyddiad	6/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	1 athro, Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu yn absennol oherwydd salwch, 1 athro wedi'i adleoli
Nifer y Disgyblion:	4	Nifer y Rhieni:	1
Math o gyfarfod:	Staff, disgyblion, rhieni	Nifer y Llywodraethwyr	2
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Kate Hill, Lisa Carter, Nicole Pearce (AD)		
Staff			
<p>Cyflwynodd KH y cynigion gan esbonio'r broses ymgynghori a sail resymegol y cynigion. Codwyd nifer o gwestiynau a phryderon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryderon ynglŷn â chau dosbarthiadau. • Mynegodd aelod o staff ddiddordeb mewn symud i ddarpariaeth CA 3/4. • Esboniodd KH y sail resymegol tu ôl i gau dosbarthiadau. • Roedd y Pennaeth wedi deall bod angen aildrefnu adnoddau o ganlyniad i'r nifer isel o ddisgyblion. • Mynegodd staff a'r Pennaeth bryderon eu bod nhw wedi cael gwybod, yng nghyfarfod Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif yr wythnos flaenorol, y byddai'r dosbarth yn symud i'r safle newydd yn y Ddraenen Wen. 			
Disgyblion			
<p>Cyflwynodd LC swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion i'r disgyblion am eu barn ar y syniad.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pryderon na fydd disgyblion yn cael cymorth, ond roedden nhw'n fwy hapus pan esboniwyd y byddai modd iddyn nhw gael mynediad i ddarpariaeth wahanol, i ddiwallu eu hanghenion. • Hoffi cael disgyblion AAA yn yr ysgol. • Roedden nhw'n meddwl y byddai'r disgyblion yn iawn yn y brif ffrwd, dyfynnodd disgybl y 'bydden nhw'n' iawn. 			

- Roedd disgyblion yn poeni y bydden nhw'n colli eu hathro/athrawes canu.

Rhieni

Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r cynigion ymgynghori, sail resymegol y cynnig a'r broses ymgynghori. Cafodd rhieni a Llywodraethwyr gyfle i ofyn cwestiynau/mynegi pryderon:

- Roedd rhiant a oedd wedi mynychu'r cyfarfod yn poeni am ei fab ac effaith y penderfyniad gan yr hoffai ei mab aros yn Ysgol Gynradd Heol y Celyn gyda chymorth.
 - Cynghorodd rhiant y byddai adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal a byddai modd i rieni/gweithwyr proffesiynol drafod yr hyn sy'n addas i ddiwallu anghenion disgyblion – prif ffrwd gyda chymorth neu'r dosbarth cynnal dysgu agosaf sef Gwaunmeisgyn.
- Heb gael copi o'r ddogfen ond wedi cael llythyr, copi caled wedi'i ddsbarthu yn y cyfarfod.
 - Esboniodd LC sail resymegol y cynigion a'r broses ymgynghori.

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Llantrisant		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Llantrisant		
Dyddiad	15/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	2 (athro/athrawes a Chynorthwy-ydd Cynnal Dysgu), Gynorthwy-ydd Cynnal Dysgu yn absennol oherwydd salwch
Nifer y Disgyblion:	4	Nifer y Rhieni:	1
Math o gyfarfod:	Staff, disgyblion, rhieni	Nifer y Llywodraethwyr	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Lisa Carter, Ceri Jones, Pennaeth Mrs L Davies, Clare Jones (Undeb) a Paul Hughes (AD)		

Staff

Cyflwynodd CJ y cynigion gan esbonio'r broses ymgynghori a sail resymegol y cynigion. Codwyd nifer o gwestiynau a phryderon:

- Doedd dim modd i athro (0.2) dosbarth cynnal dysgu Llantrisant fynychu'r cyfarfod.
- Nod y cynnig yw creu darpariaeth ar gyfer disgyblion y blynyddoedd cynnar ag anghenion arwyddocaol. Mae disgwyl y bydd cysylltiadau agos â'r Ysgol Arbennig i gefnogi dulliau rheoli'r dosbarthiadau.
- Ydy'r gymhareb yn uwch – wrth edrych ar ddisgyblion cyn-ysgol neu'r un peth â'r gymhareb bresennol?
 - Lle i 8 disgybl
 - Roedd staff yn gadarnhaol ynglŷn â'r ystod oedran sy'n fwy cyfyngedig. Cytunon nhw ei bod hi'n anodd diwallu ystod o anghenion ac oeddrannau ar hyn o bryd.
- Mae Dechrau'n Deg yn neilltuo cynorthwy-ydd 1:1, ond bydd disgyblion yn dechrau yn yr ysgol a bydd gan rieni ddisgwyliadau uchel am gymorth 1:1.
- Mae'r tŷ bach i'r anabl yn cael ei adolygu gan swyddogion yr Awdurdod Lleol.
- Fyddai gan ddisgyblion ddatganiad?
 - Cynghorwyd na fyddai hyn, o reidrwydd, yn wir.

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

- Cafodd pryderon eu codi ynglŷn â chyllid – hoffai'r Pennaeth gyllid ychwanegol ar gyfer adnoddau. Mae'r ysgol yn cyflogi goruchwyliwr amser cinio. Angen rhagor o offer synhwyrdd.

Disgyblion

Cyflwynodd LC swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion i'r disgyblion am eu barn ar y syniad.

- Esboniwyd y byddai'r dosbarth yn aros, ond byddai disgyblion iau yn rhan ohono.
- Roedd pryderon gan ddisgyblion y byddai disgyblion hŷn yn teimlo fel eu bod nhw wedi'u gadael allan, efallai bydd disgyblion iau yn ofni disgyblion hŷn.
- Syniad da, hapus y bydd disgyblion yn cael cymorth.
- Os bydd disgyblion iau yn dod i'r dosbarth, bydd gyda nhw fwy o amser i newid pethau.
- Mynegodd disgybl ei bryder gan ddweud y bydd angen sicrhau bod disgyblion yn ddiogel, bod nhw ddim yn cwmpo, a bod dim gormod o ddisgyblion yn y dosbarth.
- Ydy iard yr ysgol yn ddiogel ar eu cyfer nhw? Oes gyda chi adnoddau i'w cadw nhw'n ddiogel?
 - Cadarnhaodd swyddogion fod digon o gyllid.
- Dywedodd disgyblion fod angen i'r grŵp oedran fod yr un peth.

Rhieni

Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r cynigion ymgynghori, sail resymegol y cynnig a'r broses ymgynghori. Cafodd rhieni gyfle i fynegi pryderon/gofyn cwestiynau:

- Esboniodd Ceri y cynlluniau i wneud darpariaeth y blynyddoedd cynnar er mwyn arsylwi, ymyrryd ac asesu disgyblion cyn iddyn nhw gael lleoliad hirdymor.
- Roedd y rhiant o'r farn ei bod hi'n syniad da, ac roedd hi'n deall bod gan nifer o ddisgyblion anawsterau.
- Gofynnodd rhiant gwestiwn uniongyrchol ynglŷn â lleoliad ei ferch pe bai hi'n cael diagnosis o Anhwyldeira yn y Sbectrwm Awtistig. Pa ddarpariaeth sydd yn Ysgol Gynradd y Porth ac Ysgol Nant-gwyn? Esboniwyd natur y darpariaethau.
- Dim pryderon ynglŷn â'r ymgynghoriad.

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd Parc y Darren		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd Parc y Darren		
Dyddiad	14/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	6 (2 Gynorthwy-ydd Cymorth Dysgu, Cadeirydd y Llywodraethwyr, Athro, Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, Cydlynnydd AAA)
Nifer y Disgyblion:	9	Nifer y Rhieni:	
Math o gyfarfod:	Staff, disgyblion, rhieni	Nifer y Llywodraethwyr	
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Lisa Carter, Kate Hill a Nicole Pearce (AD), Clare Jones (Undeb)		
Staff			
<p>Cyflwynodd KH y cynigion gan esbonio'r broses ymgynghori a sail resymegol y cynigion. Codwyd nifer o gwestiynau a phryderon:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sut bydd y dosbarth yn edrych. <ul style="list-style-type: none"> ○ Esboniwyd sail resymegol canolfan asesu. • Newid o ran aildrefnu'r dosbarth, beth yw'r effaith ar staff o ran hyn. <ul style="list-style-type: none"> ○ Cadarnhaodd adran AD y bydd staff yn symud gyda'r dosbarth. • Cyfnod mamolaeth tan ddiwedd mis Ionawr – pryderon am yr hyn bydd hi'n dychwelyd iddo. <ul style="list-style-type: none"> ○ Cynghorodd y swyddog AD y bydd hi'n cael gwybod am bob cam, esboniodd CJ (Undeb) broses diogelu cyfnod mamolaeth. • Ymholiad ynglŷn ag Ymddeoliad Cynnar Gwirfoddol – <ul style="list-style-type: none"> ○ Cwestiwn cyffredin – bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud ar ôl y cyfnod ymgynghori. • Mae aildrefnu yn syniad da ac yn rhywbeth sydd ei angen. • Mae gan Gynorthwy-ydd Cymorth Dysgu ddiddordeb mewn cymryd ymddeoliad cynnar gwirfoddol. 			
Disgyblion			
Cyflwynodd LC swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn			

yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion i'r disgyblion am eu barn ar y syniad.

- Hapus i'r dosbarth aros.
- Hoffi cael y dosbarth yn yr ysgol.
- Hoffi rhagor o ddisgyblion yn y dosbarth.
- Ehangu i gynnwys CA2.

Achlysuron Ymgynghori 2018 – Adolygu Dosbarthiadau Cynnal Dysgu

Enw'r ysgol:	Ysgol Gynradd yr Hafod		
Lleoliad:	Ysgol Gynradd yr Hafod		
Dyddiad	13/11/2018	Nifer yr aelodau o staff yr ysgol:	3
Nifer y Disgyblion:	12	Nifer y Rhieni a Llywodraethwyr	50+
Math o gyfarfod:	Staff, disgyblion, rhieni		
Swyddogion yr Awdurdod Lleol sy'n bresennol:	Lisa Carter, Rachel Williams, Ceri Jones a Nicole Pearce (AD), Clare Jones (Undeb)		
Staff			
<p>Cyflwynodd CJ y cynigion gan esbonio'r broses ymgynghori a sail resymegol y cynigion. Codwyd nifer o gwestiynau a phryderon:</p> <ul style="list-style-type: none"> Sail resymegol y cynigion, tegwch yn gyson â chyfoedion ledled RhCT, lle mae un ddarpariaeth, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig creu ysgolion pob oed cynradd. Mae'r Porth yn amgylchedd sy'n gwbl hygyrch, ystafell synhwyraidd, Ysgol yr 21^{ain} Ganrif. Roedd CJ yn gwerthfawrogi bod newid yn anodd ac mae'n hi'n gyfnod pryderus, ond dyma newid cadarnhaol. Wnewch chi sôn am sut mae darpariaeth 3-16 yn well? <ul style="list-style-type: none"> Mae'r adeilad wedi cael ei adeiladu gan ystyried cynhwysiad, adnoddau newydd sbon, dydy gwaith symud arfaethedig y dosbarth ddim yn gysylltiedig ag ansawdd y dysgu yn Ysgol Gynradd yr Hafod. Y pwynt allweddol yw cael ysgol pob oed cynradd ar yr un safle. Pam nad oedd y dosbarth cynnal dysgu yn rhan o newidiadau i Ysgol Gynradd y Porth o'r dechrau? Pam cafodd Ysgol Gynradd yr Hafod ei dewis? <ul style="list-style-type: none"> Trafodwyd y cyfnod pontio gan fod disgyblion yn dod i mewn i'r dosbarth ar gyfnodau gwahanol – 1 ddarpariaeth yn unig. Mantais i staff – rhagor o gymorth ar gyfer staff y dosbarth cynnal dysgu mewn ysgol pob oed cynradd i rannu arbenigedd, atgyfeiriadau i gymorth / cyngor arbenigol. Tystiolaeth o ysgol pob oed cynradd – <ul style="list-style-type: none"> Mae'n hawdd i'r dosbarth presennol gael ei gynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol gyfan, hyblygrwydd i ofyn i aelodau eraill o staff os bydd pryderon am fater. Dosbarthiadau Cynnal Dysgu CA3/4 wedi bod yn llwyddiannus/wedi'u hen sefydlu. Cafodd dosbarth cynnal dysgu'r Cyfnod Sylfaen ei adleoli i'r Porth ym mis Medi. Dim tystiolaeth nad oes modd disgwyl i ddsbarth cynnal dysgu'r Cyfnod Sylfaen gael yr un cymorth a bod yn llwyddiannus. Mae Ysgol Gynradd yr Hafod yn darparu cyfle i gerdded i'r cyfleusterau, gweithgareddau allgyrsiol, dydy'r Porth ddim yn agos i'r orsaf drenau, dim caeau chwarae. 			

- Mae disgwyl i bob ysgol ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned.
- Mae gan staff gymorth y Pennaeth, Llywodraethwyr, mae staff yn teimlo fel eu bod nhw'n cael eu cefnogi yn yr ysgol yma.
 - Mae darpariaeth yn gweithio'n dda, dydy'r newid arfaethedig ddim yn adlewyrchiad ar yr arweinwyr neu'r ysgol.
- Oes modd i staff ymweld â'r ysgol?
 - Wrth gwrs, dim problem. Bydd modd trefnu hyn.
- Beth sy'n digwydd pe na hoffai disgyblion symud?
 - Byddai trafodaethau unigol yn cael eu cynnal gyda rhieni.
- Ydy hi'n niwtral o ran cost?
 - Dydy hwn ddim yn ymarfer arbed costau.
- Cyfeiriwyd at enw'r dosbarth – Dosbarth Cynnal Dysgu/Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig.
 - Esboniwyd nad oes newid i'r meini prawf.
- Cyfnod pontio a chynhwysiad – lle i integreiddio, byddai hyn yn fwy cyfyngedig yn Ysgol Gynradd y Porth.
 - Rhaid i gynhwysiad fod yn rhan bwysig o ddarpariaeth.
 - Mae disgwyl i bob dosbarth cynnal dysgu a Phennaeth sicrhau bod y cyfnod pontio yn gadarnhaol ac yn rhan o ddatblygu sgiliau bywyd. Mae gan ddisgyblion y brif ffrwd gyfle i aros yn yr un ysgol, byddai'r cynnig yn darparu cyfleoedd teg.
- Beth fyddai maint newydd y dosbarth?
 - Dydy'r Awdurdod Lleol ddim yn nodi nifer uchaf o ran disgyblion mewn dosbarth gan ei bod hi'n dibynnu ar anghenion y disgyblion, dim cynnig i newid maint y dosbarth 10/11. Fydd dim newidiadau i broses y panel.
- Sut bydd y dosbarth yn cael ei redeg?
 - Bydd dulliau gweithredu'r ysgol yn aros yr un peth.
- Rhoddodd un Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu wybod y byddai adleoli yn golygu y byddai hi'n cael llai o incwm gan ei bod hi'n gwneud swyddi ychwanegol yn Ysgol Gynradd yr Hafod.
- Sylwadau Cyffredinol:
 - Yn ôl RW, roedd yn llwyddiannus yn yr haf.
 - Pryderon ynglŷn â'r gymuned ehangach a'r ysgol gyfan.
 - Ar bapur mae'n syniad da, mae teimlad cryf o berthyn yn yr ysgol.
 - Byddai staff yn sicrhau bod y cynnig yn gweithio, pe bai'n mynd rhagddo.
 - Siomedig nad oedd cyswllt uniongyrchol â staff cyn y cyfnod ymgynghori – cafodd y cod ei ddilyn, deall ei bod hi'n anodd.
 - Cynhwysiad – mae disgyblion yn cael eu cynnwys amser cinio, amser chwarae, cyngherddau adeg y Nadolig, cynrychiolaeth ar gyngor yr ysgol. Mae gan Ysgol Gynradd yr Hafod lawer i'w gynnig.
 - Tystiolaeth o ddarpariaeth dosbarthiadau cynnal dysgu ysgolion pob oed cynradd lwyddiannus yn RhCT. Rhoddodd CJ wybod bod Uwch Garfan Rheoli Ysgol Gynradd y Porth yn ymrwymo i gynnal y dosbarth sy'n allweddol i lwyddiant dosbarth cynnal dysgu.
 - Gwahanu brodyr a chwiorydd

Disgyblion

Cyflwynodd CJ swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r rheswm eu bod nhw'n mynychu'r cyfarfod er mwyn trafod y cynigion/newidiadau posibl wedi'u gwneud yn

yr ymgynghoriadau. Esboniwyd y 'syniad' neu'r cynnig a gofynnodd y swyddogion i'r disgyblion am eu barn ar y syniad.

- Esboniodd y disgyblion fod disgyblion Dosbarth Coch yn ffrindiau iddyn nhw.
- Roedd gan un disgybl bryderon bod gan Ysgol Gynradd y Porth iard fach.
- Gofynnodd disgybl a yw'r ysgol yn cau.
 - Esboniwyd mai'r syniad oedd symud y dosbarth cynnal dysgu, nid cau ysgol y brif ffrwd.
- Oes grisiau a lifft yn yr ysgol?
 - Atebodd CJ gan ddweud bod yr ysgol yn gwbl hygyrch, caiff pawb symud o gwmpas mewn modd diogel.
- Fydden nhw yn yr iard ar eu pennau eu hunain?
 - Atebodd y swyddogion gan ddweud y byddai pawb gyda'i gilydd.
- Pryderon ynglŷn â theithiau ysgol, cyngherddau Nadolig a thwrnameintiau. Fyddai Dosbarth Coch yn cael ei gynnwys o hyd?
 - Cynghorodd CJ y byddai disgyblion yn cael eu cynnwys yng ngweithgareddau'r ysgol.
- Pryderon na fydd disgyblion yn ymgartrefu yn yr ysgol.
 - Esboniwyd y byddai llawer o ddisgyblion yno, cyfle i wneud ffrindiau newydd.
- Sylwadau cyffredinol
 - Esboniodd disgyblion eu bod nhw'n mynd i'r dosbarth yn ystod cyfnod euraid – roedden nhw o'r farn y bydden nhw'n gweld eisiau disgyblion y dosbarth cynnal dysgu.
 - Mae angen Dosbarth Coch ar yr ysgol, yn yr un modd â'r angen am goch yn yr enfys – fyddai hi ddim yn teimlo'n gyflawn.
 - Mae gan ddisgybl y dosbarth cynnal dysgu bryder y bydd yr ysgol yn rhy fawr.
 - Pryderon ynglŷn â bwlio – cyfeiriwyd at ddigwyddiad a oedd wedi digwydd pan aeth disgyblion Ysgol Gynradd yr Hafod ar daith i Langrannog.
 - Mae'r staff yn garedig tuag at ddisgyblion yr ysgol, bydden ni'n gweld eisiau'r disgyblion.
 - Nid Dosbarth Coch yn unig fydd yn drist – bydd staff a disgyblion yn drist hefyd.
 - Nododd un disgybl ei bod hi'n ysgol fwy, gyda gathiau sy'n cael eu cloi. Doedd dim pryderon gan y disgybl, ond roedd wedi drysu am adael yr ysgol cyn 11 oed.
- Beth sy'n digwydd pe na hoffai disgyblion y dosbarth adael?
 - Bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal gyda rhieni i drafod opsiynau.

Rhieni

Cyflwynodd KH swyddogion yr Awdurdod Lleol gan esbonio'r cynigion ymgynghori, sail resymegol y cynnig a'r broses ymgynghori. Cafodd rhieni gyfle i fynegi pryderon/gofyn cwestiynau:

- Roedd y grŵp wedi paratoi nifer o gwestiynau. Atebodd cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol y cwestiynau a chawson nhw eu cyflwyno'n ffurfiol fel ymateb ysgrifenedig i ymgynghoriad. Mae'r rhestr o gwestiynau ac atebion wedi'i nodi yn Atodiad 2.